sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Lleolrwydd ar radio masnachol

## Cynigion i ddiwygio canllawiau

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 21 Mehefin 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 3 Awst 2018

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gofyn am sylwadau ar rai newidiadau sy'n cael eu cynnig i ganllawiau Ofcom ar leolrwydd ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol.

Cafodd y canllawiau cyfredol eu diwygio'n sylweddol ddiwethaf yn 2010, ac wrth feddwl am gyflymder y newidiadau yn y sector cyfryngau, rydyn ni wedi adolygu'r canllawiau presennol. Mae hyn wedi cynnwys rhywfaint o ymchwil defnyddwyr newydd.

Rydyn ni'n cynnig diwygiadau i'r agweddau canlynol o'r canllawiau lleolrwydd:

- yr 'ardaloedd cymeradwy' lle ystyrir bod rhaglenni wedi cael eu gwneud yn lleol;
- y nifer sylfaenol o oriau sydd wedi cael eu gwneud yn lleol y dylai pob gorsaf eu darparu, a phryd dylid amserlennu'r rhaglenni hyn.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol 1
2. Cefndir 3
3. Rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol 16
4. Ardaloedd Cymeradwy 20
5. Deunyddiau lleol 29

## Atodiad

A1. Canllawiau lleolrwydd newydd arfaethedig 31
A2. Ardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig yn ôl trwydded 38
A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 48
A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 51
A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 52
A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad 54

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae’r ddogfen hon yn gofyn am sylwadau ar newidiadau sy’n cael eu cynnig i ganllawiau Ofcom ar leolrwydd ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol.

1.2 Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol analog (hy FM ac AM) lleol yn darparu nifer priodol o:

- rhaglenni sy’n cynnwys deunyddiau lleol; a
- rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

Mae’r gyfraith yn mynnu ein bod yn darparu canllawiau ynghylch sut dylai trwyddedigion radio masnachol lleol ddiwallu’r gofynion statudol hyn.

1.3 Mae trwydded pob gorsaf yn cynnwys disgrifiad o'r gwasanaeth y mae’n rhaid iddo ei ddarparu. Fformat ydy'r enw ar hyn. Mae’r Fformat yn nodi gofynion penodol fel y math o gerddoriaeth mae’n rhaid i’r orsaf ei chwarae, a faint o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol mae’n rhaid iddi ei darparu.

1.4 Diben y canllawiau lleolrwydd ydy rhoi fframwaith sy’n ehangu ac, mewn rhai achosion, yn rhoi esboniad mwy manwl o’r gofynion penodol sydd wedi cael eu cynnwys yn Fformat pob gorsaf. Mae’r canllawiau hefyd yn amlinellu’r hyn y gallai Ofcom ei ystyried os bydd angen ymchwilio i weld a ydy gorsaf yn diwallu dyletswyddau ei thrwydded o ran lleolrwydd.

1.5 Mewn nifer o feysydd, mae'r canllawiau lleolrwydd yn nodi disgwyliadau sylfaenol Ofcom o ran nifer a natur yr allbwn lleol y dylai gorsafoedd lleol ei ddarparu, ond mae rhyddid i orsafoedd ragori ar y lefelau hyn.

1.6 Gallwn hefyd, ac rydyn ni wedi gwneud hynny, osod disgwyliadau gwahanol ar gyfer gorsafoedd lleol gwahanol. Mewn geiriau eraill, nid ydy'r rhain yn rheolau cyffredinol sy’n berthnasol i bob un orsaf leol.

1.7 Cafodd y canllawiau cyfredol eu diwygio’n sylweddol ddiwethaf yn 2010. Wrth feddwl am gyflymder y newidiadau yn y sector cyfryngau, rydyn ni wedi cynnal adolygiad arall, sy’n seiliedig ar ymchwil cynulleidfa newydd. Rydyn ni hefyd wedi ystyried datganiad polisi diweddar y Llywodraeth ar y mater hwn[1].

1.8 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, rydyn ni’n cynnig caniatáu i orsafoedd radio masnachol lleol gael mwy o hyblygrwydd o ran sut a lle maen nhw’n cynhyrchu eu rhaglenni, ar yr un pryd â sicrhau bod disgwyliadau gwrandawyr o ran newyddion lleol o ansawdd uchel a chynnwys arall yn dal i gael eu diwallu.

1.9 Mae’r newidiadau arfaethedig i’n canllawiau lleolrwydd yn cynnwys y disgwyliadau sylfaenol newydd canlynol:

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668926/Commercial_radio_deregulation__Government_response_final.pdf

- Dylai gorsafoedd FM lleol sy'n darparu newyddion lleol yn rheolaidd drwy gydol y dydd ddarlledu **o leiaf un rhaglen tair awr bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 6am a 7pm** sydd wedi cael ei gwneud yn yr ardal leol;
- Dylai gorsafoedd FM lleol sy'n darparu newyddion lleol dim ond yn ystod brecwast a diwedd y prynhawn ddarlledu **o leiaf dwy raglen tair awr bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 6am a 7pm** sydd wedi cael eu gwneud yn yr ardal leol.

1.10 Fel rhan o'n cynigion, rydyn ni hefyd yn bwriadu gwneud yr 'ardaloedd cymeradwy', lle ystyrir bod rhaglen wedi cael 'ei gwneud yn lleol' yn fwy, er mwyn cyfateb mor agos â phosibl i ranbarthau ITV. Rydyn ni'n credu y byddai hyn yn rhoi mwy o ryddid i drwyddedigion benderfynu lle maen nhw am roi eu stiwdios a gwneud eu cynnwys. Byddai'r hyblygrwydd yma'n galluogi grwpiau radio sy'n berchen ar nifer o drwyddedau yn yr un rhanbarth i roi mwy o adnoddau i wneud rhaglenni a llai i gostau "brics a morter" cynnal stiwdios ar wahân.

1.11 Yn bwysig, er bod y newidiadau arfaethedig hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i orsafoedd ddarparu llai o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol nag o dan ein canllawiau cyfredol, nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'n disgwyliadau o ran y mathau o ddeunyddiau lleol y dylai gorsaf leol eu darparu. Mae hyn yn golygu y dylai gwrandawyr dal ddisgwyl gwasanaeth sy'n berthnasol yn lleol, boed y rhaglenni'n cael eu darlledu o stiwdio yn eu hardal leol ai peidio.

1.12 Os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, bydd y canllawiau lleolrwydd yn cael eu diwygio yn unol â hynny, ac wedyn bydd gorsafoedd yn gallu cyflwyno cais i newid eu Fformatau i adlewyrchu'r canllawiau newydd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

# 2. Cefndir

## Y gofynion statudol

2.1 Mae Deddf Darlledu 1990 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Ofcom ynghylch radio masnachol analog (FM ac AM) lleol, a dyletswydd benodol ynghylch pob gwasanaeth lleol rydyn ni'n ei drwyddedu. Y ddyletswydd gyffredinol ydy ei bod yn rhaid i ni wneud popeth gallwn ei wneud i sicrhau bod ystod o wasanaethau amrywiol yn cael eu darparu[2]. Y ddyletswydd benodol ydy pan fyddwn yn cynnal proses dyfarnu trwydded gystadleuol ac yn dewis yr enillydd, ei bod yn rhaid i'r drwydded a roddwn i'r enillydd gynnwys amodau priodol i sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth, fel oedd yn cael ei gynnig gan ddeilydd y drwydded wrth wneud y cais, yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y drwydded[3]. Mae darpariaethau statudol hefyd pan fydd modd gwneud newidiadau i gymeriad y gwasanaeth yn ystod cyfnod y drwydded os caiff amodau penodol eu diwallu. Caiff cymeriad gwasanaeth pob gorsaf ei gofnodi mewn rhan o'r drwydded o'r enw'r Fformat.

2.2 Yn ogystal â´r dyletswyddau hyn, mae'r gyfraith[4] hefyd yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol analog lleol yn darparu:

- rhaglenni sy'n cynnwys deunyddiau lleol; a
- rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol

i'r graddau (os o gwbl) mae Ofcom o'r farn ei bod hi'n briodol, a darparu cyfarwyddyd ynghylch sut dylid diwallu'r gofynion statudol hyn.

2.3 Caiff 'deunydd lleol' ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth fel deunydd sydd o ddiddordeb penodol i'r rheini sy'n byw neu'n gweithio yn (neu mewn rhan o) yr ardal neu'r ardal leol lle caiff [gwasanaeth radio lleol penodol] ei ddarparu, neu i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol honno (neu ran ohoni). Caiff 'deunydd' ei ddiffinio ymhellach ei fod yn cynnwys newyddion, gwybodaeth a deunydd llafar arall a cherddoriaeth.

2.4 Caiff 'rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol' eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel rhaglenni sy'n cael "eu gwneud yn llwyr neu'n rhannol mewn eiddo yn yr ardal neu'r ardal leol lle caiff y gwasanaeth hwnnw ei ddarparu neu, os oes ardal gymeradwy ar gyfer y rhaglenni, yr ardal honno." Rydyn ni'n trafod ardaloedd cymeradwy yn Adran 4 y ddogfen ymgynghori hon.

2.5 Er mwyn deall y cynigion rydyn ni'n eu gwneud yn y ddogfen hon yn well mae hi'n bwysig deall y gwahaniaeth rhwng y ddwy elfen hyn o 'leolrwydd' fel y mae'n berthnasol i reoleiddio radio masnachol.

---

[2] Adran 85(2)(b), Deddf Darlledu 1990
[3] Adran 106(1), Deddf Darlledu 1990
[4] Adran 314, Deddf Cyfathrebiadau 2003

2.6 O dan y cynllun statudol, nid oes yn rhaid i ddeunydd lleol o reidrwydd gael ei wneud yn lleol; mae gorsafoedd wedi gallu defnyddio canolfannau newyddion – lle caiff newyddion lleol eu casglu mewn lleoliad canolog i'w darlledu i orsafoedd unigol – ers nifer o flynyddoedd, ac mae modd i wybodaeth teithio neu ragolygon y tywydd ar gyfer unrhyw ran o'r DU gael eu cynhyrchu mewn lleoliad canolog ac yna eu teilwra ar gyfer pob ardal.

2.7 Yn yr un modd, rydyn ni hefyd yn cydnabod nad ydy mynnu bod gorsafoedd yn darparu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o reidrwydd yn gwarantu deunyddiau lleol. Mewn geiriau eraill, byddai'n bosibl i gyflwynydd ar orsaf radio lleol ddarlledu rhaglen pedair awr o hyd o stiwdio yn yr ardal y mae'r orsaf yn darlledu iddi heb ddarparu unrhyw ddeunyddiau lleol o gwbl.

2.8 Fodd bynnag, y tro diwethaf i ni ystyried y ffordd orau o gyflawni ein dyletswyddau i reoleiddio ar gyfer 'lleolrwydd' er budd gwrandawyr, roedd y dystiolaeth o'n blaenau'n awgrymu bod cyflwynwyr lleol yn helpu i wella'r synnwyr o berthyn a hunaniaeth gall gorsafoedd radio lleol ei ddarparu, a thrwy hynny cryfhau'r elfen o 'leolrwydd' y mae'r rheoliad yn bwriadu ei chyflawni.

## Y dull rheoleiddio presennol

2.9 Fel y nodwyd uchod, mae Fformat yn rhan o drwydded pob gwasanaeth radio masnachol analog lleol. Mae enghraifft o Fformat dros y dudalen, yn yr achos hwn mae'n drwydded radio masnachol FM lleol ar gyfer Portsmouth sy'n cael ei dal gan Celador Radio ar gyfer ei wasanaeth 'The Breeze':

**Ffigur 1: Fformat Enghreifftiol**

## THE BREEZE (Portsmouth)

| | |
|---|---|
| **Rhif trwydded** | **AL100764** |
| **Ardal drwyddedig** | **Ardal Portsmouth** |
| **Poblogaeth y Dalgylch Mesuredig** | **300,485** |
| **Amledd** | **107.4 MHz** |

## Cymeriad y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **GORSAF GERDDORIAETH A GWYBODAETH GYFFREDINOL SYDD Â NAWS LLEOL AR GYFER ARDAL PORTSMOUTH GYDAG YMRWYMIAD I CHWARAEON LLEOL AC YMRWYMIAD CRYF I NEWYDDION LLEOL.** | |
| **Hyd y gwasanaeth** | **24 awr** |
| **Rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol** | ***Lleoliad y stiwdio:*** **Mae'n rhaid cynhyrchu rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol yn yr ardaloedd sydd wedi'u trwyddedu yn Portsmouth (AL100764), Southampton (AL239) neu Winchester (AL241).** |
| | ***Oriau wedi'u gwneud yn lleol:*** **O leiaf 7 awr y dydd yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (mae'n rhaid i hyn gynnwys amser brecwast).** **O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.** |
| | ***Rhannu rhaglenni:*** **Mae modd rhannu'r holl raglenni (ac eithrio bwletinau newyddion lleol) rhwng trwydded Portsmouth (AL100764), trwydded Southampton (AL239) a thrwydded Winchester (AL241), yn amodol ar ddiwallu'r gofynion cymeriad gwasanaeth uchod.** |
| **Newyddion lleol** | **O leiaf bob awr yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener a'r oriau brig yn ystod y penwythnos.** **Ar adegau eraill dylid darlledu newyddion y DU, newyddion y gwledydd a newyddion rhyngwladol.** |

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sgwrsio | Nid yw'n cynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau ar gyfer hyrwyddo/rhaglenni, a chredydau noddwyr |

| | |
|---|---|
| Oriau brig | Amser brecwast a diwedd y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac amser brecwast hwyr ar benwythnosau |
| Yn ystod y dydd | 06.00 i 19.00 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau |

2.10 Fel y gwelir, o ran y gofynion 'lleolrwydd' penodol a nodir yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'r Fformat yn pennu faint o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol y mae'n rhaid i'r orsaf eu darparu, y lleoliad(au) lle mae'r rhaglenni hynny'n cael dod ohonyn nhw, ac a ydy'r orsaf yn cael rhannu'r rhaglenni mae'n eu gwneud yn lleol ag unrhyw orsafoedd lleol eraill.

2.11 O ran deunyddiau lleol, mae'r Fformat yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â darparu newyddion lleol (ac mae'r rhain ond yn ymwneud ag amlder, nid hyd, bwletinau newyddion lleol), ond nid oes dim gofynion penodol eraill mewn trwyddedau sy'n ymwneud â deunyddiau lleol.

2.12 Fodd bynnag, mae'r Fformat penodol yma hefyd yn mynnu bod gan y gwasanaeth naws lleol – mae hyn yn cael ei nodi yng 'nghymeriad y gwasanaeth'. Rydyn ni'n credu y dylid ystyried bod hyn yn golygu y dylai'r orsaf ddarparu amrywiaeth o ddeunyddiau lleol, yn ogystal â'r gofynion newyddion lleol a bennir yn y Fformat.

2.13 Yn ein canllawiau lleolrwydd rydyn ni'n nodi ein safbwynt ynghylch pa fathau o gynnwys allai fod yn ddeunyddiau lleol (ee gwybodaeth leol, sesiynau ffonio mewn ac ati). Rydyn ni hefyd yn cynghori y dylai gorsafoedd gynnwys deunyddiau lleol ar draws y nifer sylfaenol o oriau o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol y mae'n rhaid iddynt eu darparu, er nad oes angen i'r deunyddiau lleol gael eu cynnwys ym mhob un o'r oriau unigol hynny os nad ydy hyn yn briodol.

2.14 Mae'r canllawiau lleolrwydd hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd ar gynhyrchu a darparu newyddion lleol, yn ogystal â gofynion sylfaenol Ofcom ynghylch faint o raglenni a wneir yn lleol y dylai gwahanol fathau o wasanaethau eu darparu, a pholisïau sy'n ymwneud â chyd-leoli gorsafoedd neu rannu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng gorsafoedd lleol.

2.15 Dyma'r canllawiau sy'n berthnasol ar hyn o bryd:

- O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:
  - o leiaf 10 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm (ac mae'n rhaid i hyn gynnwys y rhaglen frecwast) os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast a diwedd y prynhawn), neu;
  - o leiaf 7 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm (ac mae'n rhaid i hyn gynnwys y rhaglen frecwast) os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.

- Bob dydd Sadwrn a dydd Sul, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu o leiaf 4 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm, a newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (sy'n cael ei alw yn frecwast hwyr).

- Nid oes angen i orsafoedd lleol AM gynhyrchu unrhyw raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol na darlledu unrhyw ddeunyddiau lleol, ond dylai o leiaf 10 awr rhwng 6am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gael eu cynhyrchu yn y wlad yn y DU lle mae ardal darlledu'r orsaf.

- Nid oes yn rhaid i rai gorsafoedd analog 'rhanbarthol' sydd wedi'u diffinio gynhyrchu unrhyw raglenni a wneir yn lleol na darlledu unrhyw ddeunyddiau lleol ar yr amod eu bod yn cael eu darlledu ar amlblecs DAB cenedlaethol.

- Caiff pob gorsaf leol gynhyrchu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o stiwdios unrhyw orsaf arall mewn ardal ehangach sydd wedi cael ei chymeradwyo gan Ofcom, a rhannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag un orsaf leol neu fwy yn yr ardal gymeradwy hon.

2.16 Ers i'r canllawiau cyfredol ddod i rym yn 2010, mae Ofcom wedi cytuno ar 416 cais i newid Fformat gan orsafoedd radio masnachol lleol analog i rannu stiwdios ('cyd-leoli') a/neu rannu oriau rhaglenni lleol ('rhannu rhaglenni'). Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn ar gyfer trefniadau cyd-leoli neu rannu rhaglenni yn yr ardaloedd a oedd wedi cael eu cymeradwyo gan Ofcom yn 2010.

## Y cyd-destun ar gyfer y newidiadau arfaethedig

2.17 Mae hi bellach bron yn ddegawd ers i Ofcom adolygu sut mae'n rheoleiddio lleolrwydd ar y radio.[5]

2.18 Ers hynny, mae gorsafoedd radio analog lleol wedi wynebu mwy o gystadleuaeth am wrandawyr ac am hysbysebwyr. Mae'r gystadleuaeth hon yn dod o wasanaethau ffrydio cerddoriaeth fel Spotify ac Apple Music, yn ogystal ag o wasanaethau radio eraill nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio (radio rhyngrwyd) neu sy'n cael eu rheoleiddio llai na gwasanaethau analog (DAB a llwyfannau darlledu digidol eraill).

2.19 Mae data o'r sefydliad ymchwil cynulleidfaoedd radio annibynnol RAJAR yn dangos y bu newid mawr mewn patrymau gwrando dros y degawd diwethaf oddi wrth orsafoedd radio masnachol lleol i radio masnachol cenedlaethol. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd gwasanaethau radio masnachol lleol yn cynrychioli 30.3% o'r holl wrando ar radio, gyda radio masnachol cenedlaethol yn cynrychioli 10.7%[6]. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach,

[5] Cyhoeddwyd ymgynghoriad Ofcom 'Radio: goblygiadau *Prydain Ddigidol* ar gyfer rheoleiddio lleolrwydd' ym mis Gorffennaf 2009, gyda'r datganiad yn dilyn ym mis Ebrill 2010. Mae'r naill ddogfen a'r llall ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/radio

[6] Ffynhonnell RAJAR Ch1 2008

mae cyfran gwrando ar radio masnachol lleol wedi disgyn i 27.4% ac mae gwrando ar radio masnachol cenedlaethol wedi cynyddu dros saith pwynt canran i 17.5%[7].

2.20 Mae hyn yn debyg o adlewyrchu'r ffaith bod gan wrandawyr mwy o ddewis o lawer bellach o orsafoedd radio cenedlaethol ar y llwyfan DAB. Mae dros hanner yr holl wrando ar radio nawr yn cael ei wneud ar wasanaethau digidol (mae bron i dri chwarter yn cael ei wneud drwy DAB), mae 90% o'r holl geir newydd yn dod gyda DAB wedi'i osod fel mater o drefn, ac mae 64% o ddefnyddwyr yn gallu cael gafael ar radio DAB yn y cartref.

2.21 Ar hyn o bryd mae gwahaniaeth hefyd, yn enwedig o ran gofynion 'lleolrwydd', rhwng rheoleiddio 'dull ysgafnach' gwasanaethau sy'n cael eu darlledu ar y llwyfan DAB o gymharu â rheoleiddio'r rheini sy'n cael eu darlledu ar radio analog (AC ac FM).

2.22 Yn eu hymatebion[8] i ymgynghoriad y Llywodraeth yn 2017 ar ddadreoleiddio radio masnachol (gweler paragraffau 2.27 i 2.34), roedd rhai o'r perchnogion gorsafoedd radio mwy wedi gofyn i'r Llywodraeth greu mwy o degwch rhwng y gwasanaethau analog a'r gwasanaethau digidol. Roedden nhw'n honni y byddai rheoleiddio llai rhagnodol yn y sector analog yn eu galluogi i fod yn fwy hyblyg a chystadlu'n fwy effeithiol yn erbyn gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio a gorsafoedd sydd ond ar gael ar y rhyngrwyd.

2.23 Ar y llaw arall, petai 'newid' yn y dyfodol o analog i DAB, mae nifer wedi ystyried ei bod hi'n bwysig cadw rhywfaint o 'leolrwydd' ar wasanaethau radio sy'n darlledu ar amlblecsau DAB lleol. Gan nad oes unrhyw ddeddfwriaeth newydd, mae hon yn agwedd o'r dirwedd radio gyfredol y gellid ei cholli os a phan y byddai gorsafoedd lleol yn rhoi'r gorau i ddarlledu eu signalau analog, neu pan fydd y mwyafrif helaeth o wrandawyr yn newid i DAB.

## Mewnbwn i Adolygiad y Llywodraeth

2.24 Ym mis Medi 2015, roedd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol bryd hynny, Ed Vaisey AS, wedi gofyn i Ofcom archwilio'r cwmpas i ddadreoleiddio trwyddedu radio masnachol, gan gynnwys dewisiadau i ddiwygio'r gofynion rheoleiddio sy'n ymwneud â chynnwys lleol, gan gynnwys newyddion a rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol.

2.25 Er mwyn helpu i gyfrannu at ein hymateb[9], roeddem wedi cynnal rhywfaint o ymchwil defnyddwyr ansoddol[10] i ganfyddiadau gwrandawyr o'r deunyddiau lleol a'r rhaglenni a oedd yn cael eu gwneud yn lleol ar radio lleol, ac i ba raddau roedd y cynnwys hwn yn cael ei ddarparu mewn ffordd unigryw wrth gymharu â ffynonellau cyfryngau eraill.


[7] Ffynhonnell RAJAR Ch1 2018
[8] Mae'r ymatebion i ymgynghoriad y DCMS ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668927/Commercial_radio_deregulation_responses_received_final.pdf

[9] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/76908/letter_to_ed_vaizey_mp_230216.pdf
[10] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/81467/local_commercial_radio_content_research.pdf

2.26 Canfu'r ymchwil er mai cerddoriaeth ydy'r math pwysicaf o gynnwys sy'n cael ei ddarparu gan radio lleol i'r mwyafrif helaeth o wrandawyr, eu bod hefyd yn credu bod cynnwys gwybodaeth fel newyddion lleol, teithio a'r tywydd yn hollbwysig o ran diffinio bod gorsaf yn un 'leol'.

2.27 Pan ofynnwyd iddynt sgorio pwysigrwydd cymharol nodweddion amrywiol gorsafoedd radio lleol, roedd cyflwynwyr lleol yn llai pwysig na newyddion a diweddariadau gwybodaeth lleol perthnasol a chywir. Roedd y rhan fwyaf a gymerodd ran yn meddwl ei bod hi'n bwysicach fod y cyflwynwyr yn ddifyr a/neu yn llawn gwybodaeth yn hytrach na'u bod yn yr ardal leol.

**Ffigur 2: Cyfaddawdau gorsafoedd radio masnachol lleol yn y dyfodol (2015)**




2.28 Roedden ni hefyd wedi dadansoddi'r marchnadoedd radio mewn gwledydd eraill a oedd yn awgrymu nad ydy gofyniad i ddarparu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o reidrwydd yn golygu darparu deunyddiau lleol neu raglenni sy'n berthnasol yn lleol. Er enghraifft, yn Ffrainc ac yng Nghanada, lle'r oedd yn rhaid i orsafoedd radio lleol ddarlledu tair neu chwe awr bob dydd o raglenni a oedd wedi cael eu gwneud yn lleol, nid oedd deunyddiau lleol o reidrwydd yn cael eu darparu oni bai fod y gorsafoedd o dan ddyletswydd benodol i ddarparu cynnwys o'r fath.

2.29 Roedd y Llywodraeth wedyn wedi cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Chwefror 2017[11], a oedd yn gosod nifer o gynigion ar gyfer diwygio fframwaith rheoleiddio radio masnachol. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i ddisodli dyletswydd gyfredol Ofcom i sicrhau amrywiaeth a

[11] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/591508/RadioDereg-Final13Feb.pdf

dewis o wasanaethau radio â dyletswydd newydd i sicrhau bod newyddion a gwybodaeth graidd arall fel gwybodaeth am draffig a theithio a'r tywydd yn cael eu darparu, a bod pob gorsaf radio masnachol lleol yn cael yr hyblygrwydd i gynhyrchu ac i ddarlledu cynnwys sy'n berthnasol yn lleol heb ofynion ynghylch lle caiff y cynnwys hwnnw ei wneud neu ei ddarlledu ohono.

2.30 Ym mis Rhagfyr 2017, cadarnhaodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu symud ymlaen gyda'r rhain a chynigion eraill[12], drwy ddod â deddfwriaeth ymlaen cyn 2022.

2.31 Oni bai neu nes caiff y fframwaith statudol ei newid, mae'n rhaid i Ofcom wrth gwrs barhau i weithredu o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Ein nod drwy ymgynghori nawr ydy sicrhau bod gennym gyfres effeithiol a phriodol o gyfarwyddyd lleolrwydd, fel sy'n ofynnol o dan adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.


## Ymchwil cynulleidfa newydd

2.32 Yn gynharach eleni roedden ni wedi comisiynu arolwg omnibws ar-lein gyda sampl o 1,621 o wrandawyr radio masnachol lleol ar draws y DU. Nod yr ymchwil oedd deall yr hyn sy'n cymell pobl i wrando ar y gorsafoedd hynny a pha elfennau, os o gwbl, sy'n cyfrannu at 'leolrwydd' gorsaf. Rydyn ni'n cyflwyno trosolwg o'r canfyddiadau yma, a byddwn ni'n cyfeirio at y siartiau fel sy'n berthnasol drwy gydol y ddogfen hon.

2.33 Yn unol ag ymchwil arall, mae Ffigur 3 yn dangos bod y canfyddiadau o'n harolwg yn dangos mai'r prif gymhelliant o bell ffordd dros wrando ar orsafoedd radio masnachol lleol penodol ydy'r gerddoriaeth maen nhw'n ei chwarae (72% o wrandawyr). Mae hyn wedi'i ddilyn gan wrando cefndirol (43%) ac wedyn agweddau o gynnwys lleol fel traffig a theithio lleol (32%) a phenawdau newyddion lleol (29%). Roedd cael cyflwynwyr yn siarad am ddigwyddiadau yn yr ardal leol neu leoliadau lleol yn is o lawer yn y drefn gyda dim ond tua un rhan o bump o'r gwrandawyr yn dewis y rhain fel rhesymau dros wrando. Wrth ofyn am yr un prif reswm (gweler Ffigur 4), dywedodd dros hanner y sampl (54%) mai'r gerddoriaeth oedd y rheswm.


[12] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668926/Commercial_radio_deregulation__Government_response_final.pdf

**Ffigur 3: Rhesymau dros wrando ar orsafoedd radio masnachol lleol**




*Ffynhonnell: Ymchwil gan Populus, 2018*
*Sail: Gwrandawyr radio masnachol lleol (1,621)*
*Cwestiwn: "Pam ydych chi'n gwrando ar [gosaf fasnachol leol]?"*

**Ffigur 4: Y prif reswm dros wrando ar orsafoedd radio masnachol lleol**





*Ffynhonnell: Ymchwil gan Populus, 2018*
*Sail: Gwrandawyr radio masnachol lleol (1,621)*
*Cwestiwn: "A beth yw eich rheswm pwysicaf dros wrando ar [gorsaf fasnachol leol]?"*

2.34 Roedden ni hefyd wedi gofyn i wrandawyr nodi, os unrhyw beth, am yr orsaf fasnachol leol roedden nhw'n gwrando arni oedd yn gwneud iddi deimlo'n lleol iddyn nhw (Ffigur 5). Darparu gwybodaeth leol fel traffig a theithio, penawdau newyddion a thywydd oedd y tri phrif reswm o'r amrywiaeth o ddewisiadau a oedd ar gael. Dim ond 17% o'r gwrandawyr oedd wedi dewis y rheswm bod y cyflwynwyr yn eu hardal leol, a dyma oedd yn yr wythfed safle yn gyffredinol. Nid oedd consensws cyffredinol ynghylch pa un ffactor sy'n diffinio


lleolrwydd gorsaf, gyda phenawdau newyddion lleol yn cael sgôr gyda dim ond un rhan o bump o'r gwrandawyr (Ffigur 6).

**Ffigur 5: Ffactorau sy'n cyfrannu at 'leolrwydd' gorsafoedd radio masnachol lleol**




*Ffynhonnell: Ymchwil gan Populus, 2018*
*Sail: Gwrandawyr radio masnachol lleol (1,621)*
*Cwestiwn: "Mae radio lleol yn gallu golygu llawer o bethau i wahanol bobl. Beth am [gorsaf fasnachol leol], os unrhyw beth, sy'n gwneud i chi deimlo bod yr orsaf yn un leol?"*

**Ffigur 6: Y prif ffactor sy'n cyfrannu at 'leolrwydd' gorsafoedd radio masnachol lleol**




*Ffynhonnell: Ymchwil gan Populus, 2018*
*Sail: Gwrandawyr radio masnachol lleol (1,621)*
*Cwestiwn: "A beth yw'r prif reswm pam mae [gorsaf fasnachol leol] yn teimlo'n lleol i chi?"*

# Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

2.35 Wrth ystyried yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd, roedden ni'n credu y byddid dal yn gallu diwallu'r gofyniad ar Ofcom i sicrhau lefelau priodol o ddeunyddiau lleol a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol petai gorsafoedd yn gallu lleihau faint o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol maen nhw'n eu darparu tra bod dal disgwyl iddyn nhw ddarparu deunyddiau lleol, yn enwedig newyddion lleol.

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno y byddai modd diwallu dyletswydd Ofcom i sicrhau 'lleolrwydd' ar orsafoedd radio masnachol lleol petai gorsafoedd yn gallu lleihau faint o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol maen nhw'n eu darparu? Os nad ydych chi, rhowch y rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.**

2.36 Yn unol â hynny, yng ngweddill y ddogfen ymgynghori hon, rydyn ni'n ystyried pa ddiwygiadau dylen ni eu gwneud i'n cyfarwyddyd ynghylch sut rydyn ni'n ystyried y dylai gorsafoedd ddiwallu eu gofynion deunyddiau lleol penodol a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

2.37 Mae'r ddogfen hon felly yn:

a) ymgynghoriad ynghylch diwygio'r cyfarwyddyd lleolrwydd, fel sy'n ofynnol o dan a314(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003: ac yn

b) ymgynghoriad ar gymeradwyo un ardal neu fwy, fel sy'n ofynnol o dan a314(9) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

2.38 Nid ydyn ni'n edrych ar agweddau Fformatau nad ydyn nhw'n ymwneud â lleolrwydd (yn bennaf y gofynion sy'n ymwneud ag allbwn cerddoriaeth) gen ein bod wedi ystyried y maes hwn yn gymharol ddiweddar, yn 2015, gan ddadreoleiddio'n sylweddol ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus.[13]

2.39 Mae'n bosibl mai canlyniad yr ymgynghoriad hwn fydd newidiadau i'n canllawiau lleolrwydd presennol, fel sy'n cael ei gynnig yn Atodiad 1, gan gynnwys ardaloedd cymeradwy mwy, fel sy'n cael ei gynnig yn Atodiad 2.

2.40 Ar ôl yr ymgynghoriad yma, os caiff y newidiadau hyn (neu rai eraill) eu gwneud i'r cyfarwyddyd, bydd angen i orsafoedd wneud cais am newid Fformat er mwyn gweithredu unrhyw newidiadau maen nhw'n dymuno eu gwneud sy'n cyd-fynd â'r canllawiau newydd.

2.41 O dan y fframwaith statudol, nid oes yn rhaid i Ofcom ymgynghori ar gais gan orsaf i ddarparu ei raglenni lleol o unrhyw leoliad(au) yn ei hardal gymeradwy newydd (fel sy'n cael ei gynnig yn y ddogfen ymgynghori hon, neu a ddiwygir ar ôl yr ymgynghoriad).

2.42 Nid oes yn rhaid i ni chwaith ymgynghori os ydyn ni'n meddwl na fyddai newid arfaethedig yn arwain at newid sylweddol i gymeriad y gwasanaeth, ac rydyn ni'n debyg o feddwl nad ydy cais sy'n cyd-fynd â'r canllawiau lleolrwydd diwygiedig yn cynrychioli newid sylweddol i gymeriad gwasanaeth.

2.43 Yn yr Adran nesaf, rydyn ni'n nodi'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â lefel ac amserlennu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol. Yn Adran 4, rydyn ni'n nodi'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud ag o lle caiff rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol ddod, drwy gynnig set newydd o ardaloedd cymeradwy. Yn olaf, yn Adran 5, rydyn ni'n cynnig rhai mân ddiwygiadau i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â deunyddiau lleol.

[13] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0025/51667/statement.pdf

## Asesiad o’r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.44 Gyda’i gilydd mae’r ddogfen hon yn cynnwys asesiad o’r effaith yn unol â’r diffiniad yn Adran 7 o Ddeddf 2003. Nid ydyn ni wedi canfod unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau cydraddoldeb (hy oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol). Nid ydym chwaith wedi gweld yr angen i gynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar wahân mewn perthynas â’r grwpiau cydraddoldeb ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon: cred grefyddol, barn wleidyddol a dibynyddion. Y rheswm am hyn ydy ein bod yn disgwyl na fydd y newidiadau sy’n cael eu cynnig yn y ddogfen hon yn cael effaith wahaniaethol yng Ngogledd Iwerddon o gymharu â gwrandawyr yng ngweddill y DU.

2.45 Rydyn ni hefyd wedi ystyried Safonau'r Iaith Gymraeg Ofcom ar Lunio Polisïau fel sy’n cael ei amlinellu yn ei hysbysiad cydymffurfio. Mae’r safonau llunio polisïau yn berthnasol ar yr adeg pan fyddan nhw’n cael effaith dim ots lle caiff y penderfyniad polisi ei wneud. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw un o’r cynigion sy’n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

# 3. Rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol

3.1 Yn yr adran hon rydyn ni'n gwneud cynigion i newid ein canllawiau lleolrwydd fel y maen nhw'n berthnasol i:

- lefel y rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rydyn ni'n disgwyl i orsafoedd lleol eu darparu, a;
- pryd dylid darlledu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

3.2 Er mwyn atgoffa, dyma'r canllawiau cyfredol perthnasol:

- O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:
  - o leiaf 10 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm (ac mae'n rhaid i hyn gynnwys y rhaglen frecwast) os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast a diwedd y prynhawn), neu;
  - o leiaf 7 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm (ac mae'n rhaid i hyn gynnwys y rhaglen frecwast) os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.
- Bob dydd Sadwrn a dydd Sul, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu o leiaf 4 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm, a newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (sy'n cael ei alw yn frecwast hwyr).

- Nid oes angen i orsafoedd lleol AM gynhyrchu unrhyw raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol na darlledu unrhyw ddeunyddiau lleol, ond dylai o leiaf 10 awr rhwng 6am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gael eu cynhyrchu yn y wlad yn y DU lle mae ardal darlledu'r orsaf.

3.3 Fel sy'n cael ei nodi yn Adran 2, cafodd y canllawiau hyn eu hadolygu'n sylweddol ddiwethaf yn 2010 a hynny'n bennaf ar sail tystiolaeth o ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd yn 2007 ac astudiaeth yn 2008-9 o effaith economaidd posibilrwydd llacio rheoliadau.

3.4 Adeg honno, fe ddaethom i'r casgliad y byddai'r canllawiau a nodir uchod yn ein galluogi i sicrhau ein dyletswyddau statudol mewn ffordd a oedd yn gymesur ac a oedd yn ystyried eu heffaith debygol yn briodol.

3.5 Mae'r canllawiau cyfredol yn sicrhau bod o leiaf dwy raglen yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener ac un bob dydd ar benwythnos yn cael eu gwneud yn lleol (mae'r rhan fwyaf o raglenni ar radio masnachol yn para 3-4 awr), gan bennu ymhellach y dylai un o'r rhaglenni hyn fod y rhaglen frecwast o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r ail gyfarwyddyd hwn yn deillio o'r ffaith bod gorsafoedd radio yn gyffredinol yn denu eu cynulleidfa fwyaf ar yr adeg hon o'r dydd, ac oherwydd bod yr ymchwil a gynhaliwyd ar y pryd yn awgrymu mai dyma'r adeg o'r dydd roedd llawer o wrandawyr yn ystyried a ddylai fod yn 'lleol'.

3.6 Yn Adran 2 y ddogfen ymgynghori hon, rydyn ni wedi nodi'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud, ac sy'n dal i gael eu gwneud, yn y farchnad lle mae gorsafoedd radio masnachol

lleol analog yn gweithredu ac yn gorfod cyflawni dyletswyddau eu trwydded, a'r dystiolaeth ymchwil rydyn ni wedi'i chasglu ers mis Medi 2015 ynghylch safbwyntiau gwrandawyr ar ddeunyddiau lleol a rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol a'u pwysigrwydd cymharol.

3.7 Mae hefyd yn berthnasol bod rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol yn gymharol ddrud i gwmnïau radio masnachol eu gwneud oherwydd bod angen iddyn nhw gynnal stiwdios a chyflwynwyr ar wahân, lle mae rhaglenni nawr yn gallu cael eu gwneud yn dechnegol, ac yn aml yn fwy effeithlon, yn ganolog. Mae ein dadansoddiad wedi dangos mai rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol ydy'r un gost uchaf fel rheol ar gyfer gorsafoedd lleol fel cyfran o'u costau. Gallai lleihau'r gofynion yn y maes hwn olygu y gallai cwmnïau radio masnachol ddewis gwario costau cynnal stiwdios ar wahân ar gynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel sy'n berthnasol yn lleol.


3.8 Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, rydyn ni'n meddwl bod y dystiolaeth hon yn golygu y gallai gorsafoedd radio masnachol, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, ddarparu llai o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol nag rydyn ni'n ei ddisgwyl ar hyn o bryd, ar yr un pryd â gorfod darparu lefelau priodol o newyddion lleol a deunyddiau lleol eraill.

3.9 Wrth ystyried y ffordd orau o sicrhau bod ein canllawiau lleolrwydd yn adlewyrchu disgwyliadau gwrandawyr ar yr un pryd â rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i orsafoedd o ran sut maen nhw'n cynhyrchu eu rhaglenni, rydyn ni bellach o'r farn y dylem ystyried beth allai fod yn lefelau sylfaenol priodol o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ar draws yr wythnos i gyd. Nid ydy ein tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod angen ystyried rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ar benwythnosau ar wahân i o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd y sampl yn ein harolwg ar-lein yn gwrando ar eu gorsafoedd masnachol lleol yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau felly mae eu hymatebion yn adlewyrchu'r amrywiaeth o allbwn. Ar ben hynny, mae canfyddiadau gan RAJAR yn dangos mai dim ond 6% o wrandawyr radio masnachol lleol sydd ond yn gwrando ar benwythnosau[14].

3.10 Yn yr un modd, er mai'r cyfnod brecwast o ddydd Llun i ddydd Gwener ydy'r adeg o'r dydd pan fydd radio'n gyffredinol yn denu ei gynulleidfaoedd mwyaf, mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn awgrymu nad oes mwyach unrhyw alw mwy am gyflwynwyr lleol amser brecwast nag ar unrhyw adegau eraill o'r dydd. Ymysg y sampl yn ein hymchwil 2018 a oedd yn gwrando ar radio masnachol lleol yn ystod cyfnod brecwast neu ddiwedd y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener, mae eu rhesymau dros wrando yn gyson rhwng yr holl wrandawyr, gyda cherddoriaeth yn dal yn brif reswm dros wrando (73%) wedi'i ddilyn gan wrando cefndirol (44%) a'r traffig a'r teithio lleol (36%). Roedd cael cyflwynwyr a oedd yn siarad am ddigwyddiadau yn yr ardal leol yn y seithfed safle, gyda 24% o'r gwrandawyr ar yr adegau hyn yn dweud bod hyn yn rheswm dros wrando. Yn yr wythfed safle roedd cael cyflwynwyr sy'n siarad am lefydd sy'n gyfarwydd iddyn nhw yn eu hardal leol (22%).

[14] RAJAR Ch1 2018

### Ffigur 7: Rhesymau dros wrando ar orsafoedd radio masnachol lleol




*Ffynhonnell: Ymchwil gan Populus, 2018*
*Sail: Gwrandawyr radio masnachol lleol sy'n gwrando yn ystod amser brecwast neu yn ystod y prynhawn/diwedd y prynhawn (1,798)*
*Cwestiwn: "Pam ydych chi'n gwrando ar [gosaf fasnachol leol]?"*

3.11 Ar ben hynny, rydyn ni'n cydnabod y gallai fod manteision i wrandawyr petai grwpiau radio masnachol yn cael hyblygrwydd i gynnig rhaglen frecwast sy'n cael ei chyflwyno gan un cyflwynydd cenedlaethol a'i darlledu ar draws nifer o orsafoedd lleol, ond sy'n dal i gynnwys deunyddiau sy'n berthnasol yn lleol ar gyfer pob ardal leol y mae'r gwrandawyr yn eu disgwyl.

3.12 Rydyn ni felly'n cynnig diwygio ein cyfarwyddyd o ran y nifer sylfaenol o oriau o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol rydyn ni'n disgwyl i orsafoedd FM lleol eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel a ganlyn:

- O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:
  - **o leiaf 6 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast a diwedd y prynhawn),**
    neu;
  - **o leiaf 3 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.**

3.13 Byddai'r cynigion hyn felly yn gosod ein disgwyliad sylfaenol newydd am o leiaf un rhaglen sy'n cael ei gwneud yn lleol bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer gorsafoedd sy'n darparu newyddion lleol drwy gydol y dydd, a dwy raglen sy'n cael eu gwneud yn lleol bob dydd ar gyfer gorsafoedd sy'n darparu newyddion lleol amser brecwast a diwedd y prynhawn yn unig.

3.14 Rydyn ni hefyd yn cynnig na ddylid disgwyl mwyach i orsafoedd ddarparu rhaglen frecwast sydd wedi cael ei gwneud yn lleol, nac unrhyw raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus.

3.15 Nid ydym yn cynnig diwygio ein canllawiau sy'n ymwneud â darparu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol gan orsafoedd sy'n darlledu ar AM (tonfedd ganolig). Nid oes newidiadau chwaith yn cael eu cynnig i ddarparu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol gan orsafoedd rhanbarthol neu Lundain sy'n darparu gwasanaeth DAB cenedlaethol. Mae'r canllawiau lleolrwydd sy'n dangos y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig yn Atodiad 1.

3.16 Mae hi'n bwysig cofio y bydd y cynigion hyn, os cânt eu rhoi ar waith, yn ganllawiau, ac nid yn rheolau. Y gorsafoedd unigol fyddai'n penderfynu a ydyn nhw'n dymuno newid y gofynion yn eu Fformatau sy'n ymwneud â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r canllawiau newydd sy'n cael eu cynnig.

**Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw ddiwygiadau rydych chi'n meddwl a ddylai gael eu gwneud yn lle (os o gwbl) ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.**

3.17 Ar ôl ystyried lefel ac amserlennu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol, rydyn ni nawr yn symud ymlaen i ystyried sut dylid diffinio 'sy'n cael eu gwneud yn lleol' ar gyfer pob gorsaf leol drwy ailystyried yr ardaloedd cymeradwy.


# 4. Ardaloedd Cymeradwy

4.1 Yn Adran 2 roedden ni wedi amlinellu cynigion i newid y lefel sylfaenol o raglenni sy’n cael eu gwneud yn lleol rydyn ni’n disgwyl i orsafoedd radio masnachol lleol eu darparu, a newidiadau i’n disgwyliadau ynghylch pryd dylid darlledu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol. Yn yr adran hon, rydyn ni’n gwneud cynigion sy’n ymwneud â’r lleoliadau y mae’n rhaid i orsafoedd ddarlledu eu horiau lleol angenrheidiol ohonyn nhw (hy lle mae’n rhaid i’r oriau o gynhyrchu lleol ddigwydd).

4.2 Cafodd ardaloedd cymeradwy eu cyflwyno gan Ofcom ar ôl pasio Deddf yr Economi Ddigidol 2010. Roedden nhw’n creu set wedi’i diffinio o ardaloedd daearyddol a oedd yn cwmpasu’r DU, gan ystyried ardaloedd trawsyrru presennol, materion a oedd yn ymwneud â graddfa/hyfywedd economaidd a chysylltiadau lleol. O fewn yr ardaloedd cymeradwy hyn, mae gorsafoedd yn gallu cyflwyno cais i gyd-leoli a rhannu eu horiau rhaglenni sy’n cael eu gwneud yn lleol, sydd mewn ffordd yn caniatáu iddyn nhw ddod at ei gilydd a bod yn fwy.

4.3 Caiff y 31 ardal gymeradwy eu dangos ar y map dros y dudalen. Sylwch nad ydy’r gorsafoedd sydd yn Llundain Fwyaf a gogledd yr Alban mewn ardaloedd cymeradwy (gweler paragraff 4.14). Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw geisiadau gan drwyddedigion yn yr ardaloedd hyn i gyd-leoli neu i rannu rhaglenni yn cael eu hystyried gan Ofcom fesul achos.

## Ffigur 8: Ardaloedd cymeradwy presennol Ofcom




Nodiadau: Nid ydy'r map yn cynnwys yr Ardal Gymeradwy ar gyfer Ynysoedd y Sianel.

Y ffigurau poblogaeth oedolion ydy’r rheini a gafodd eu defnyddio gan Ofcom yn ein hymgynghoriad 2009 a’n datganiad yn 2010 ‘Radio: goblygiadau *Prydain Ddigidol* ar gyfer rheoleiddio lleolrwydd.’ Mae’r naill ddogfen a’r llall ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/radio

4.4 O dan y Ddeddf Economi Ddigidol 2010, mae gan Ofcom y disgresiwn i osod ac i ddiwygio ardaloedd cymeradwy. Mewn rhai achosion, rydyn ni eisoes wedi caniatáu i rai gorsafoedd llai mewn ardaloedd cymeradwy gwahanol gyd-leoli/rhannu rhaglenni, sydd mewn ffordd yn creu ardaloedd cymeradwy mwy ar gyfer y gorsafoedd hynny. Er enghraifft, mae ‘The Breeze’ ym Mryste, sy’n berchen i Celador Radio, yn rhannu ei oriau o raglenni lleol â’i chwaer orsafoedd ‘Breeze’ sydd yn Ardaloedd Cymeradwy Solent a Swydd Wiltshire, yn ogystal â gorsafoedd ‘Breeze’ eraill sydd yn ardal gymeradwy Gorllewin Lloegr.

4.5 Mae’r ymchwil a gynhaliwyd gan Ofcom ar gyfer yr adolygiad yma yn awgrymu, wrth feddwl am beth sy’n gwneud i’r orsaf maen nhw’n ei dewis deimlo’n ‘lleol’ nid ydy lleoliad y cyflwynwyr mor bwysig i’r gwrandawyr radio masnachol lleol â'r ffaith bod yr orsaf yn darparu deunyddiau lleol - newyddion lleol, newyddion teithio a’r tywydd yn bennaf (gweler Ffigurau 5 a 6).

4.6 O ran cael gafael ar ddeunyddiau lleol a’u cyflwyno, mae datblygiadau mewn technoleg yn golygu nad ydy hi mor bwysig i orsaf radio fod yn yr ardal leol yn ffisegol. Er enghraifft, mae modd cynnal cyfweliadau o bell erbyn hyn drwy ddefnyddio gwasanaethau llais dros y rhyngrwyd sydd wedi cael eu gwella ar gyfer eu darlledu. Os caiff y rhain eu defnyddio yn gywir mae ansawdd y galwadau hyn yn well o lawer na’r dewis arall blaenorol o gynnal cyfweliad dros linell ffôn draddodiadol. Yn yr un modd, mae modd nawr cael gafael ar ddeunyddiau ffynhonnell a fyddai unwaith ond wedi bod ar gael mewn ardal benodol (er enghraifft, copi o’r papur newydd lleol) o unrhyw le ar-lein, ac mae dyfodiad ‘newyddiaduraeth dinasyddion’ ar gyfryngau cymdeithasol yn golygu bod newyddiadurwyr yn aml yn cael synnwyr o ddigwyddiad sy’n datblygu heb fod yno.

4.7 Yn eu cyflwyniadau i ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth ar ddadreoleiddio, mae'r cwmnïau radio masnachol mwy wedi dadlau ymhellach eu bod mewn gwirionedd yn gallu cynhyrchu cynnwys gwell o ganolfannau cynhyrchu canolog, lle mae modd cydlynu adnoddau a defnyddio staff mewn ffordd effeithlon. Fodd bynnag, rydyn ni’n ymwybodol bod nifer yn y diwydiant nad ydyn nhw o’r un farn, ac rydyn ni’n nodi bod manteision sylweddol yn dal i fodoli, fel gwybodaeth a dealltwriaeth o ardal leol a’r gallu i wneud cysylltiadau, yn sgil cael newyddiadurwyr yn yr ardal olygyddol dan sylw.

4.8 Fodd bynnag, yng ngoleuni canfyddiadau’r ymchwil a drafodwyd uchod a’r newidiadau technolegol sydd wedi digwydd yn y diwydiant, rydyn ni’n credu bod achos dros wneud yr ardaloedd cymeradwy presennol yn fwy. Byddai hyn yn rhoi’r rhyddid i drwyddedigion, o fewn ardaloedd daearyddol mwy o lawer nag o’r blaen, benderfynu lle maen nhw am roi eu stiwdios a chreu eu cynnwys. Byddai’r hyblygrwydd hwn yn galluogi grwpiau radio sy’n berchen ar nifer o drwyddedau yn yr un rhanbarth i roi mwy o adnoddau i wneud rhaglenni a llai i gostau “brics a morter” cynnal nifer o stiwdios lleol.

4.9 Rydyn ni’n cydnabod mai’r gorsafoedd sy’n debygol o fanteisio ar yr hyblygrwydd hwn ydy'r rheini sy’n darlledu o dan drwyddedau sy’n cael eu dal gan y grwpiau radio masnachol

mawr, a fydd yn fwy tebygol o fod yn berchen ar drwyddedau eraill yn yr ardal gymeradwy, fel rheol gan ddefnyddio enw brand cyffredin ar gyfer yr holl wasanaethau.

4.10 Hyd yn oed yng nghyd-destun yr ardaloedd cymeradwy mwy, rydyn ni'n disgwyl y bydd gweithredwyr annibynnol, llai yn llai tebygol o gau stiwdios lleol.

4.11 Ein cynnig ydy cyfuno ardaloedd cymeradwy presennol Ofcom i nifer llai o ardaloedd cymeradwy mwy o lawer sy'n cyfateb mor agos â phosibl at ranbarthau ITV. Mae hyn ar y sail bod rhanbarthau ITV eisoes yn fframwaith sydd wedi ennill ei blwyf ar gyfer darparu rhaglenni darlledu ar lefel is na'r DU, y mae cynulleidfaoedd a hysbysebwyr yn weddol gyfarwydd ag ef.

4.12 Mae'r ardaloedd cymeradwy newydd rydyn ni'n eu cynnig ychydig yn wahanol i'r rhanbarthau ITV, yn rhannol oherwydd – fel sy'n cael ei egluro uchod – eu bod yn seiliedig ar gyfuno ardaloedd cymeradwy presennol Ofcom. Dyma'r gwahaniaethau mwyaf sylweddol (er bod rhai eraill):

- Rydyn ni'n cynnig un ardal gymeradwy 'Gorllewin Lloegr' ar gyfer y gorsafoedd sydd yn y rhanbarth hwnnw. Y rheswm am hyn yw bod poblogaeth rhanbarth Westcountry ITV (sy'n cynnwys Dyfnaint a Chernyw) yn anghymesur o fach wrth gymharu â maint y rhan fwyaf o'r ardaloedd cymeradwy eraill rydyn ni'n eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn.
- Yn yr un modd, mae'r rhanbarth Border ITV yn fach o ran poblogaeth. Rydyn ni'n cynnig cynnwys yr holl drwyddedau sydd ar hyn o bryd yn ardal gymeradwy 'Yr Alban' Ofcom yn ein hardal gymeradwy 'De'r Alban' newydd. Bydd y gorsafoedd yn Lloegr sy'n darlledu yn rhanbarth Border ITV yn ymuno â'r rheini yn y rhanbarth Granada ITV i greu ardal gymeradwy 'Gogledd Orllewin Lloegr' newydd.

4.13 Ar hyn o bryd, nid oes gan orsafoedd yng ngogledd yr Alban na Llundain Fwyaf ardal gymeradwy – mae'n rhaid iddyn nhw i gyd wneud eu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol mewn eiddo yn yr ardaloedd lle maen nhw'n darlledu.

4.14 Roedd yr ardaloedd cymeradwy a gafodd eu creu gan Ofcom yn 2010 wedi cael eu seilio i raddau helaeth ar ardaloedd trawsyrru 'treftadaeth' gorsafoedd radio masnachol lleol ac ardaloedd amlblecs radio lleol. Yn achos Llundain, fodd bynnag, penderfynwyd bod gan y gorsafoedd treftadaeth ac amlblecsau ardaloedd darpariaeth arbennig o fawr a oedd yn gorgyffwrdd â gorsafoedd lleol ac amlblecsau eraill. Roedd hyn yn golygu, er enghraifft, y byddai gorsafoedd bach yn ardal Llundain yn gallu cyd-leoli a rhannu rhaglenni, er eu bod milltiroedd i ffwrdd o'i gilydd ar ochrau gwahanol i'r brifddinas, ac mai dim ond ychydig o gysylltiadau oedd ganddyn nhw. Yn achos gogledd yr Alban, penderfynwyd bod y pellteroedd mawr rhwng y gorsafoedd yn yr ardal hon yn golygu ei bod yn debyg y byddai'r cysylltiadau diwylliannol rhwng yr ardaloedd trwydded gwahanol yn gyfyngedig.


4.15 Fodd bynnag, mae maint a chwmpas mwy yr ardaloedd cymeradwy newydd rydyn ni'n eu cynnig mewn mannau eraill yn y DU – am y rhesymau polisi rydyn ni wedi'u nodi yn Adran 2 y ddogfen hon – yn golygu ein bod nawr yn cynnig cyflwyno ardaloedd cymeradwy ar gyfer Llundain a gogledd yr Alban.

4.16 Mae ein cynigion ar gyfer yr ardaloedd cymeradwy mwy, newydd wedi'u nodi a'u dangos yn y tabl ac ar y mapiau dros y dudalen:

**Ffigur 9: Diffiniadau o’r ardaloedd cymeradwy arfaethedig**

| **Ardal gymeradwy newydd arfaethedig** | **Cyfansoddiad (ardaloedd cymeradwy presennol)** |
|---|---|
| Canol Lloegr | Birmingham a Swydd Warwick, Dwyrain Canolbarth Lloegr, De Orllewin Canolbarth Lloegr, Stoke, Wolverhampton a Swydd Amwythig. |
| Ynysoedd y Sianel | Ynysoedd y Sianel. |
| Dwyrain Lloegr | Swydd Caergrawnt, East Anglia, Essex. |
| Llundain | Amh |
| Gogledd Iwerddon | Gogledd Iwerddon. |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | Gogledd Ddwyrain Lloegr |
| Gogledd Orllewin Lloegr | Swydd Gaerhirfryn a Cumbria, Lerpwl, Manceinion |
| Gogledd yr Alban | Amh |
| De yr Alban | Caeredin a'r Gororau, Glasgow a De Orllewin yr Alban. |
| De Lloegr | Dyffryn Tafwys, Surrey a Sussex, Caint, y Siroedd Cartref. |
| Cymru | Gogledd a Chanolbarth Cymru, De Cymru, Gorllewin Cymru. |
| Gorllewin Lloegr | Solent, De Orllewin Lloegr, Gorllewin Lloegr, Swydd Wiltshire. |
| Swydd Efrog | East Riding a Swydd Lincoln, Gogledd Swydd Efrog, De Swydd Efrog, Gorllewin Swydd Efrog. |

**Ffigur 10: Map o'r ardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig, gan ddangos cyfuno ardaloedd cymeradwy presennol**




Nodiadau: Nid ydy'r map yn cynnwys yr Ardal Gymeradwy ar gyfer Ynysoedd y Sianel.

Y ffigurau poblogaeth oedolion ydy'r rheini a gafodd eu defnyddio gan Ofcom yn ein hymgynghoriad 2009 a'n datganiad yn 2010 'Radio: goblygiadau *Prydain Ddigidol* ar gyfer rheoleiddio lleolrwydd.' Mae'r naill ddogfen a'r llall ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/radio

### Ffigur 11: Map o'r ardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig




Nodyn: nid ydy'r map yn cynnwys yr ardal gymeradwy ar gyfer Ynysoedd y Sianel.

4.17 Mae rhestr gyflawn o’r trwyddedau analog lleol cyfredol, a’u hardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig, yn cael ei chyhoeddi yn Atodiad 2.

4.18 Caiff gorsaf ofyn i Ofcom gymeradwyo ardal wahanol at ddibenion o ble daw ei raglenni sy’n cael eu gwneud yn lleol (hy un sy’n cynnwys un neu ragor o ardaloedd neu ardaloedd lleol nad ydyn nhw yn yr ardal gymeradwy a nodir yn y map uchod, a’r tabl yn Atodiad 2). Yn ogystal â gorfod cael ei ystyried yn unol â'r broses newid Fformat statudol (sydd o bosibl yn gallu mynnu ymgynghoriad), rhaid cyhoeddi unrhyw gais o’r fath sut bynnag er mwyn gofyn am sylwadau cyn bydd modd i Ofcom ei gymeradwyo.

**Cwestiwn 3. Ydych chi’n cytuno â’n hardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw gynigion eraill rydych chi’n meddwl y dylid eu hystyried (os o gwbl) ac egluro’r rhesymau a/neu dystiolaeth sy’n cefnogi eich safbwynt.**

# 5. Deunyddiau lleol

5.1 Fel rydyn ni wedi'i amlygu yn gynharach yn y ddogfen hon, mae ein canllawiau lleolrwydd cyfredol yn nodi y dylai gorsafoedd ddarparu deunyddiau lleol (ee teithio, tywydd ac ati) pan fyddan nhw'n darlledu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol, ond nid ydym yn dweud faint o ddeunyddiau lleol y dylid eu darparu.

5.2 Er ein bod yn cynnig y dylai gorsafoedd gael yr hyblygrwydd i ddarparu llai o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol na faint mae ein canllawiau lleol yn awgrymu y dylen nhw, nid ydy hyn yn golygu ein bod hefyd yn diwygio ein disgwyliadau ynghylch darparu deunyddiau lleol.

5.3 Yn benodol, ni fydd newid yng ngofyniad pob gorsaf leol i ddarparu deunyddiau lleol yng nghyd-destun ei 'gymeriad gwasanaeth' unigol (fel sydd wedi cael ei gynnwys yn ei Fformat), felly dylai gwrandawyr yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan wasanaeth sydd wedi'i drwyddedu'n unigol dal i ddisgwyl gwasanaeth sy'n berthnasol yn lleol hyd yn oed os nad ydy'r rhan fwyaf o'r rhaglenni'n cael eu darparu o'u hardal leol (a/neu eu rhannu â gorsafoedd sy'n gwasanaethu ardaloedd trwyddedig eraill).

5.4 Mae'r canllawiau lleolrwydd yn nodi ein safbwynt ynghylch y math(au) o ddeunyddiau lleol y dylai gorsaf leol eu darparu dim ots faint o oriau o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol mae ei Fformat yn ei fynnu – bydd hyn yn dal yn wir.

5.5 Fodd bynnag, rydyn ni'n cynnig diwygio'r canllawiau i gydnabod y ffaith y bydd rhai gorsafoedd yn y dyfodol yn darparu dim ond 3 neu 6 awr o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener a dim ar benwythnosau, a bydd dal disgwyl iddyn nhw ddarparu lefelau priodol o ddeunyddiau lleol.

5.6 Yn benodol, rydyn ni'n cynnig disodli'r frawddeg ganlynol yn y canllawiau cyfredol:

"dylai'r rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol gynnwys deunyddiau lleol ar draws yr oriau sylfaenol a nodwyd yn gyffredinol, er nad oes angen cynnwys deunyddiau lleol ym mhob un o'r oriau unigol hynny os nad ydy hyn yn briodol"

gyda'r cyfarwyddyd newydd canlynol:

"dylai unrhyw orsaf y mae ei gymeriad gwasanaeth yn mynnu ei fod yn darparu gwasanaeth lleol gynnwys, yn ogystal â lefel y newyddion lleol a bennwyd yn ei Fformat, digon o ddeunyddiau lleol arall yn unol â'r canllawiau hyn i gyflawni'r cymeriad gwasanaeth angenrheidiol".

5.7 Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau eraill i'n canllawiau fel y maen nhw'n berthnasol i ddeunyddiau lleol.

5.8 Nid ydym chwaith yn cynnig unrhyw newidiadau i'r canllawiau mewn perthynas â darparu newyddion lleol.

**Cwestiwn 4. Ydych chi'n cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â deunyddiau lleol? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw ddiwygiadau rydych chi'n meddwl a ddylai gael eu gwneud yn lle ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.**

# A1. Canllawiau lleolrwydd newydd arfaethedig

A1.1 Yn yr Atodiad hwn rydyn ni'n nodi'r canllawiau lleolrwydd cyfredol, gan ddangos (mewn coch) y newidiadau rydyn ni'n cynnig eu gwneud ac rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau yn eu cylch yn yr ymgynghoriad hwn.

A1.2 Rydyn ni hefyd yn bwriadu gwneud rhai diwygiadau drafftio eraill i'r canllawiau, yn bennaf er mwyn bod yn glir. Nid ydy'r rhain yn rhan o'r ymgynghoriad yma, ac maen nhw'n cael eu cynnwys yma – mewn gwyrdd – er mwyn bod yn gyflawn yn unig.

## Canllawiau Lleolrwydd Ofcom

### Cyflwyniad

Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol lleol yn darparu nifer priodol o:

- rhaglenni sy'n cynnwys deunyddiau lleol; a
- rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol

a'i fod yn darparu canllawiau ynghylch sut dylid diwallu'r gofynion uchod.

Dyma'r canllawiau angenrheidiol. Maen nhw'n nodi polisi cyffredinol Ofcom mewn perthynas â'r gofynion lleol hyn a sut rydyn ni'n debygol o'u defnyddio gyda gorsafoedd lleol yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae Ofcom yn ystyried pob gorsaf fesul achos a sut, os o gwbl, y dylai'r canllawiau hyn fod yn berthnasol i'r gorsafoedd hynny. Mae'r graddau y mae'n rhaid i ddeunyddiau lleol a rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol gael eu cynnwys yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan drwyddedai yn cael eu pennu yn Fformat yr orsaf (ac mae hyn yn gallu amrywio rhwng gorsafoedd).

Nid ydy lleolrwydd yn fater i bob gorsaf, ond pan fydd yn ofynnol gan Fformat trwyddedig gorsaf, dylai'r canllawiau hyn gyfrannu ato.

Yn benodol, dylai unrhyw orsaf y mae ei gymeriad gwasanaeth yn mynnu ei fod yn darparu gwasanaeth lleol gynnwys, yn ogystal â lefel y newyddion lleol a bennwyd yn ei Fformat, digon o ddeunyddiau lleol yn unol â'r canllawiau hyn i gyflawni'r cymeriad gwasanaeth angenrheidiol.

Nid rheolau ydy'r canllawiau hyn, ond maen nhw'n amlinellu'r math o ystyriaethau a allai fod yn berthnasol os bydd angen ymchwilio i allbwn lleolrwydd gorsaf. Mae nifer o'r ystyriaethau hyn yn seiliedig ar ddisgwyliadau gwrandawyr.

### Deunyddiau lleol

Mae Adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn diffinio 'deunydd lleol' fel *deunydd sydd o ddiddordeb penodol i'r rheini sy'n byw neu'n gweithio yn (neu mewn rhan o) yr ardal neu'r ardal leol lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu, neu i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol honno (neu ran ohoni).* Mae modd ei gyflawni mewn sawl ffordd (newyddion lleol, gwybodaeth leol, sylw, darllediadau allanol, beth sydd mlaen, newyddion teithio, cyfweliadau, gweithgareddau elusennol, tywydd, amser ar yr awyr i

gerddorion lleol, celfyddydau a diwylliant lleol, chwaraeon, sesiynau ffonio mewn, rhyngweithio â'r gwrandawyr ac ati). Mae pob gorsaf i benderfynu ei hun ar y cydbwysedd rhwng y gwahanol elfennau o ddeunyddiau lleol a amlinellir. Ond, pan fydd angen i orsaf ddarlledu deunyddiau lleol dylai gynnwys o leiaf rhai o'r elfennau hyn.

**Beth ydy deunydd lleol**

Ymysg pethau eraill rydyn ni'n ystyried bod deunydd lleol yn golygu:

- Dylai'r gwrandawyr gael teimlad o'r ardal drwy wrando ar orsaf benodol, a bod yn hyderus bod materion sy'n bwysig, yn berthnasol neu o ddiddordeb yn lleol i'r gynulleidfa darged yn cael eu darlledu.
- Dylai hyn gynnwys rhaglenni sy'n berthnasol yn lleol ac sydd hefyd yn cynnig dewis amgen i wasanaeth ar gyfer y DU neu ar gyfer y wlad.
- Dylai gynnwys cynnwys a ddaw o, a / neu sy'n berthnasol i ardal drwyddedig yr orsaf;
- Dylai'r trwyddedigion allu adnabod amrywiaeth o allbwn sy'n arbennig o berthnasol i'w hardal leol;
- Dylai rhaglenni fod yn debygol o roi teimlad o berchnogaeth a/neu berthyn i wrandawyr, yn enwedig yn ystod cyfnod o argyfwng (eira, llifogydd ac ati).

**Beth nad yw'n ddeunydd lleol**

- Gweithgareddau hyrwyddo pur oddi ar yr awyr fel hyrwyddo'r orsaf yn yr ardal (cerbydau sy'n dangos logos yr orsaf, darllediadau allanol ac ati), heb weithgareddau ar yr awyr sy'n ymwneud â rhywbeth ar wahân i hyrwyddo eu hunain, nad ydynt eu hunain yn cymryd lle rhaglenni lleol.
- Ni fyddid yn ystyried bod cystadlaethau / hyrwyddiadau sy'n gwahodd gwrandawyr i gymryd rhan o'r tu allan i ardal yr orsaf yn gyfraniad at leolrwydd; a
- Ni ystyrir bod hysbysebion yn rhaglenni lleol yng nghyd-destun lleolrwydd a chyfarwyddyd lleolrwydd Ofcom.

## Darparu newyddion lleol

Oherwydd pwysigrwydd newyddion lleol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, dylai pob gorsaf sy'n gorfod darlledu deunyddiau lleol ddarlledu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr oriau brig o ddydd Llun i ddydd Gwener (brecwast a diwedd y prynhawn) ac ar benwythnosau (brecwast hwyr). Dylai'r gorsafoedd hynny sydd wedi ymrwymo i wasanaeth newyddion gwell (gweler isod) ddarlledu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (6am-7pm) a drwy gydol yr oriau brig (brecwast hwyr) ar benwythnosau.

**Cynnwys newyddion lleol:**

- Dylai newyddion lleol fod o ansawdd uchel, yn berthnasol, yn amserol ac yn gywir, a dylai gydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Darlledu.
- Dylai gorsaf allu ymateb ar yr awyr i ddigwyddiadau lleol mawr mewn ffordd amserol.
- Dylai bwletinau geisio adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr sy'n byw yn yr ardal.
- Dylai straeon newyddion lleol fod yn ddiweddar a dylid eu diweddaru'n rheolaidd.
- Dylai bwletinau newyddion lleol hefyd gynnwys newyddion o'r gwledydd (os ydy hynny'n berthnasol), o'r DU a newyddion rhyngwladol.
- Dylai lefel y newyddion lleol, a'r cydbwysedd o newyddion lleol a chenedlaethol mewn unrhyw fwletin penodol fod yn destun barn newyddiadurol broffesiynol, ond bydd newyddion lleol bob tro yn nodwedd hanfodol o allbwn cyffredinol gorsaf leol.

- Ni fyddid yn ystyried bod rhoi gwedd leol ar newyddion y DU (ee gofyn am gyfweliadau mewn ardal a'u chwarae fel petaent yn dod o ardal arall neu fewnosod enwau lleoedd lleol mewn straeon DU) heb gynhyrchu newyddion / gwybodaeth leol yn gyfraniad at leolrwydd na chyflawni gofynion newyddion lleol.
- Er bod straeon am chwaraeon lleol yn gallu bod yn gyfraniad mawr at gyflawni lleolrwydd, a bod hynny'n gallu cynrychioli rhan bwysig o gymysgedd golygyddol gorsaf leol, ni fyddid yn ystyried bod newyddion chwaraeon lleol yn rhywbeth i gymryd lle straeon newyddion lleol.
- Yn yr un modd, efallai fod newyddion adloniant yn berthnasol yn lleol ond ni ddylai hyn fod yn brif elfen bwletinau newyddion lleol ac ni ddylent gymryd lle straeon newyddion lleol sy'n fwy difrifol.

**Gwasanaeth newyddion lleol 'gwell'**

Mae rhai gorsafoedd lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth newyddion lleol gwell yn gyfnewid am gael darlledu mwy o oriau rhwydwaith (hy rhaglenni nad ydyn nhw wedi cael eu gwneud o'u hardal drwyddedig neu gymeradwy) yn ystod rhaglenni yn ystod y dydd.

Mae'r dewis newyddion lleol gwell hwn yn rhoi hyblygrwydd i'r gorsafoedd leihau faint o oriau lleol a gynhyrchir, os ydyn nhw'n dymuno arbed arian. Mae darparu bwletinau newyddion lleol yn ystod y dydd, ac yn ystod oriau brig, yn helpu i sicrhau bod cynnwys a hunaniaeth leol yr orsaf yn cael eu cynnal yn ystod yr oriau rhwydwaith hyn yn ystod y dydd. Yn ein hymchwil ar leolrwydd mewn radio masnachol, a gyhoeddwyd yn 2009, newyddion lleol oedd y math o gynnwys a oedd yn cael ei werthfawrogi fwyaf gan wrandawyr, ac mae ei ddarparu hefyd o fydd i gymunedau ac i ddemocratiaeth leol.

Mae'n dilyn felly na ddylai bwletinau lleol a ddarlledir yn ystod y dydd fel rhan o wasanaeth newyddion 'gwell' fod yn ddim ond ymarfer symbolaidd sy'n golygu bod modd ticio'r blwch, a dylai pob bwletin ddiwallu'r gofynion sydd wedi'u nodi ar gyfer newyddion lleol yn gyffredinol (gweler y cyfarwyddyd uchod) yr un mor gyfforddus â bwletinau a ddarlledir yn ystod yr oriau brig (hy brecwast o ddydd Llun i ddydd Gwener a diwedd y prynhawn, a brecwast hwyr ar benwythnosau).

Er nad ydym erioed wedi rhagnodi'r hyd sylfaenol ar gyfer unrhyw fath o fwletin newyddion, gan fod hynny'n fater i'r trwyddedai, bydden ni bob tro'n disgwyl i bob bwletin gwell yn ystod y dydd gynnwys mwy na dim ond penawdau, a chynnwys o leiaf un stori newyddion lleol sydd wedi cael ei ffurfio'n llawn, ac fel rheol mwy na hyn, ochr yn ochr â straeon cenedlaethol. Mewn achosion pan fydd gorsafoedd yn rhannu eu horiau lleol mewn ardal gymeradwy (gweler y nodiadau ar gyd-leoli a rhannu rhaglenni, isod), ac yn darlledu'r un bwletin newyddion ar draws mwy nag un ardal drwyddedig, mae angen i o leiaf un o'r straeon lleol ym mhob bwletin fod yn uniongyrchol berthnasol i wrandawyr ym mhob un o'r ardaloedd trwyddedig. Y rheswm am hyn yw bod gorsafoedd sy'n rhannu eu horiau lleol yn dal trwyddedau ar wahân y mae dal angen diwallu'r gofynion lleolrwydd a chymeriad y gwasanaeth a nodir yn eu Fformatau unigol.

**Cynhyrchu newyddion lleol**

- Gall unrhyw grŵp o orsafoedd ddewis cronni eu hadnoddau newyddion a gweithredu un neu fwy o 'ganolfannau newyddion' mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr gweithredol iddyn nhw. Fodd bynnag, er mwyn darparu gwasanaeth newyddion lleol cynhwysfawr sy'n berthnasol i'r ardal dan sylw, dylai pob gorsaf gael cyfrifoldeb uniongyrchol ac atebol dros ddarparu ar gyfer ei hardal drwyddedig.
- Dylid cael darpariaeth briodol o wasanaeth newyddiadurol proffesiynol, yn yr ardal drwyddedig (neu ardal leol gymeradwy os ydy hynny'n briodol), ar ddiwrnodau pan fydd darpariaeth newyddion lleol yn ddyletswydd Fformat.
- Dylai recordio bwletinau newyddion ymlaen llaw fod yn eithriad yn hytrach nag yn arfer a dylai bwletinau oriau brig bob amser gael eu darlledu'n fyw (neu eu recordio ymlaen llaw mymryn cyn eu darlledu).

## Rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol

Pan fydd yn rhaid i orsaf ddarlledu rhaglenni sy'n cynnwys deunyddiau lleol mae'n rhaid i gyfran addas ohonyn nhw (fel y pennir gan Ofcom) fod yn rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

### Diffinio 'gwneud yn lleol'

Mae rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn golygu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn ardal drwyddedig gorsaf neu, pan fydd Ofcom wedi cymeradwyo ardal sy'n ymwneud â'r orsaf honno, yr ardal gymeradwy honno. Fel rheol bydd Fformat gorsaf yn nodi lle mae'n rhaid iddi wneud ei rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol. Er ei bod hi'n dderbyniol ~~yn ystod yr oriau sy'n cael eu gwneud yn lleol~~ i fwletinau newyddion gael eu cynhyrchu a/neu eu darparu o'r tu allan i ardal drwyddedig neu gymeradwy'r orsaf fel rhan o drefniant 'canolfan newyddion' (gweler y cyfarwyddyd ar ddarparu newyddion lleol, uchod), ac mae'n iawn i elfennau unigol eraill o gynnwys lleol (fel newyddion teithio) ddod o'r tu allan i'r ardal leol, rydyn ni'n disgwyl y dylai'r prif gyflwynydd ar unrhyw raglen sy'n cael ei darlledu yn ystod oriau gorsaf sy'n cael eu gwneud yn lleol fod yn ardal drwyddedig neu gymeradwy'r orsaf honno. Mae'r cyfarwyddyd hwn hefyd yn berthnasol i sefyllfaoedd pan fydd prif gyflwynydd rhaglen wedi cael ei recordio ymlaen llaw neu dracio llais (hy ddim yn darlledu'n 'fyw').

Er bod modd i orsafoedd rwydweithio rhaglenni'r tu allan i'r gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn eu Fformatau, dylen nhw dal allu ymateb i ddigwyddiadau lleol yn amserol, gan ddarparu rhaglenni lleol byw yn y ffordd ac ar yr adegau y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl.

### Gorsafoedd lleol FM

O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:

o leiaf 6 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast a diwedd y prynhawn),

neu;

o leiaf 3 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.

~~Yn gyffredinol, dylai pob gorsaf FM gynhyrchu o leiaf 10 awr y dydd o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (dylai hyn gynnwys brecwast).~~

~~Fodd bynnag, pan fydd gorsaf FM yn darparu gwasanaeth newyddion gwell o newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn ystod oriau brig ar benwythnosau, dylai'r orsaf honno gynhyrchu o leiaf 7 awr y dydd o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (dylai hyn gynnwys brecwast). Mae angen i orsafoedd sy'n dymuno symud i'r math yma o drefniant gyflwyno Cais i Newid Fformat.~~

~~Os ydyn nhw'n darparu gwasanaeth newyddion gwell ai peidio, dylai pob gorsaf gynhyrchu o leiaf 4 awr y dydd o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ar benwythnosau (yn ystod y dydd).~~

~~Ym mhob achos, dylai'r rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol gynnwys deunyddiau lleol ar draws yr oriau sylfaenol a nodwyd yn gyffredinol, er nad oes angen cynnwys deunyddiau lleol ym mhob un o'r oriau unigol hynny os nad ydy hyn yn briodol.~~

Mewn achosion eithriadol, os bydd gorsaf yn gallu cyflwyno achos cryf ynghylch pam y dylid ei thrin yn wahanol, er enghraifft, fel gorsaf gerddoriaeth arbenigol, ac felly nad oes angen iddi ddarparu ~~cymaint o~~

~~ddeunyddiau lleol a~~ cynifer o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol na'r lefel sy'n cael ei hawgrymu yn y canllawiau hyn, bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.

**Gorsafoedd lleol AM**

Yn gyffredinol nid oes angen i orsafoedd AM gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol na darlledu deunyddiau lleol. Ond, dylai pob gorsaf AM gynhyrchu o leiaf 10 awr o raglenni yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener o'r wlad lle mae'r orsaf.

~~Caiff gorsafoedd AM y mae eu Fformatau ar hyn o bryd yn mynnu eu bod yn cynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol a darlledu deunyddiau lleol wneud cais am newidiadau yn unol â'n Canllawiau newid Fformat.~~

**Tarddiad rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol Cydleoli a rhannu rhaglenni**

Mae 'rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol', mewn perthynas â gwasanaeth lleol unigol yn golygu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn eiddo sydd naill ai yn:

a) yr ardal neu'r ardal leol y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar ei chyfer, neu;

b) yr ardal neu'r ardal leol lle caiff gwasanaeth arall ei ddarparu, ond dim ond pan fydd yr ardal neu'r ardal leol honno'n disgyn mewn ardal ehangach sydd hefyd yn cynnwys yr ardal neu'r ardal leol y mae'r gwasanaeth dan sylw yn cael ei ddarparu ar ei chyfer, ac y mae Ofcom wedi'i chymeradwyo at ddibenion caniatáu i raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol y gwasanaeth dan sylw gael eu gwneud yno ("ardal gymeradwy").

Mae Ofcom wedi cymeradwyo ardal ar gyfer pob gwasanaeth lleol trwyddedig. Mae'r rhain yn cael eu dangos ar y map isod, ac yn y tabl sy'n ei ddilyn[15].

Caiff unrhyw orsaf ddarparu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o'r ardal mae wedi'i thrwyddedu i'w gwasanaethu, neu o stiwdios unrhyw orsaf(oedd) eraill y mae eu hardal(oedd) trwyddedig hefyd yn yr ardal gymeradwy (sy'n cael ei alw yn 'gydleoli'). Mae'r ardal drwyddedig/ardaloedd trwyddedig y mae gorsaf yn cael darparu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ohoni/ohonynt yn cael eu pennu yn ei Fformat.

Caiff gorsaf ofyn i Ofcom gymeradwyo ardal wahanol at ddibenion o ble daw ei raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol (hy un sy'n cynnwys un neu ragor o ardaloedd neu ardaloedd lleol nad ydyn nhw yn yr ardal gymeradwy a nodir yn y map a'r tabl isod). Yn ogystal â gorfod cael ei ystyried yn unol â'r broses newid Fformat statudol (sydd o bosibl yn gallu mynnu ymgynghoriad), rhaid cyhoeddi unrhyw gais o'r fath sut bynnag er mwyn gofyn am sylwadau cyn bydd modd i Ofcom ei gymeradwyo.

Mae Fformat gorsaf yn pennu a yw'n cael rhannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag unrhyw orsaf arall. Fel mater o bolisi cyffredinol bydd Ofcom yn caniatáu i orsaf rannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag unrhyw orsaf arall yn ei hardal gymeradwy, ac mae ein cyfarwyddyd newid Fformat yn adlewyrchu'r dull gweithredu hwn.

Caiff gorsaf hefyd rannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag un orsaf neu fwy nad ydyn nhw yn ei hardal gymeradwy. Ni fydd unrhyw geisiadau i newid Fformat sy'n gofyn am ganiatâd o'r fath yn cael eu cymeradwyo fel mater o bolisi cyffredinol, ond byddan nhw'n cael eu hystyried fesul achos ac efallai y bydd hyn yn destun ymgynghoriad.

[15] Pan gaiff y canllawiau lleolrwydd diwygiedig eu cyhoeddi, byddan nhw'n cynnwys map a thabl o'r ardaloedd cymeradwy.

Pan fydd trefniadau cydleoli a/neu rannu rhaglenni ar waith, dylai pob gorsaf ddal ati i ddarparu deunydd lleol sy'n berthnasol i'r gwrandawyr yn eu hardaloedd trwyddedig unigol.

Mae rhagor o gyfarwyddyd ar ardaloedd cymeradwy, cyd-leoli a/neu rannu rhaglenni ar gael yn ein polisi newid Fformat.

~~Mae Ofcom wedi diffinio set o ardaloedd cymeradwy, ar sail cysylltiadau lleol, ardaloedd trawsyrru presennol ac ystyriaethau graddfa/hyfywedd gorsafoedd lle mae modd ystyried bod rhaglenni'n dal i gael eu gwneud yn lleol. Caiff gorsafoedd wneud cais i newid eu Fformatau, er mwyn cyd-leoli a/neu rannu rhaglenni â gorsafoedd eraill yn yr ardaloedd cymeradwy hyn (hy y maen nhw'n rhannu ardal gymeradwy â nhw).~~

~~Mae rhagor o wybodaeth am ardaloedd cymeradwy, gan gynnwys tabl sy'n dangos ardal gymeradwy pob gorsaf, ar gael yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/radio/statement/Approved_areas_annex.pdf~~

~~Pan fydd trefniadau cydleoli a/neu rannu rhaglenni ar waith, dylai pob gorsaf ddal ati i ddarparu deunydd lleol sy'n berthnasol i'r gwrandawyr yn eu hardaloedd trwyddedig unigol.~~

~~Mae'n bosibl i orsafoedd nad ydyn nhw'n perthyn i'r un ardal gymeradwy ddal i gyflwyno cais i gyd-leoli a/neu rannu rhaglenni. Mae rhagor o gyfarwyddyd ar ardaloedd cymeradwy, gwneud cais i gyd-leoli a/neu rannu rhaglenni ar draws ardaloedd cymeradwy ar gael yn ein polisi newid Fformat.~~

### Gorsafoedd 'rhanbarthol' a rhannu rhaglenni

Pan fydd rhai gorsafoedd analog 'rhanbarthol', a restrir isod, yn darparu fersiwn o'u gwasanaeth rhaglenni'n genedlaethol ar DAB, ein polisi ydy na ddylai fod yn rhaid iddyn nhw yn gyffredinol ddarlledu deunyddiau lleol na rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol. Mewn ffordd mae hyn yn caniatáu iddyn nhw fod yn orsafoedd DAB cenedlaethol gyda darpariaeth genedlaethol rannol ar FM. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd cynnwys sy'n berthnasol i'r gwledydd yn y gwledydd datganoledig, bydd yn dal yn rhaid i unrhyw orsafoedd rhanbarthol yn y gwledydd hynny gynhyrchu rhaglenni sy'n berthnasol i'r wlad yn unol â'r canllawiau ar gyfer gorsafoedd FM lleol.

Mae hwn yn eithriad i'r dull gweithredu cyffredinol ar ddeunyddiau lleol a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol a amlinellir uchod. Mae'n adlewyrchu mai'r gorsafoedd 'rhanbarthol' hyn ydy'r rheini sy'n canolbwyntio'n gyffredinol ar ddarparu estyniad o ddewis cerddoriaeth, yn ogystal â'r rhaglenni angenrheidiol sydd wedi cael eu gwneud yn lleol a deunyddiau lleol (rhanbarthol). O ganlyniad, maen nhw'n fwy tebygol o gael yr hyblygrwydd i fod fel gorsafoedd cenedlaethol, creu mwy o gystadleuaeth a dewis ar y lefel genedlaethol, drwy eu rhyddhau o ddyletswyddau i ddarlledu deunyddiau lleol a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

### Gorsafoedd FM Rhanbarthol a Llundain Fwyaf

| Gorsaf | Rhanbarth(au) |
|---|---|
| Absolute Radio | Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr. |
| Capital FM | Llundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Canol yr Alban, Swydd Efrog. |
| GEM | Dwyrain Canolbarth Lloegr. |
| Heart | Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Canol yr Alban, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, Swydd Efrog, De Cymru, Gogledd a Chanolbarth Cymru. |

| | |
|---|---|
| LBC | Llundain. |
| Magic | Llundain. |
| Nation Radio | De Cymru. |
| Radio X | Llundain. |
| Sam FM | Solent. |
| Smooth Radio | Llundain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr. |
| Wave 105 | Solent. |

# A2. Ardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig yn ôl trwydded

A2.1 O dan ein cynigion, mae'r tabl canlynol yn dangos y trwyddedau radio masnachol lleol analog unigol a fyddai'n dod o dan bob ardal gymeradwy.

*Yn nodi gorsaf AM. Ers 2010, mae gwasanaethau AM wedi gallu cyflwyno cais i Ofcom i gael gwared â'r holl ofynion cynnwys a chynhyrchu lleol o'u trwyddedau (er nad ydy pob un wedi gwneud hynny).

**Yn nodi gorsaf FM ranbarthol neu yn Llundain sydd wedi cael caniatâd gan Ofcom i gael gwared â'r gofynion cynnwys a chynhyrchu lleol o'u trwydded ar sail darparu gwasanaeth DAB cenedlaethol.

| Ardal gymeradwy newydd arfaethedig | Ardal y drwydded (ac enw ar-yr-awyr y trwyddedai) |
|---|---|
| **Canol Lloegr**<br>(Nifer y trwyddedau: 40) | Birmingham (Capital FM)<br>Birmingham (Free Radio)<br>Birmingham* (Free Radio 80s)<br>Buxton (High Peak Radio)<br>Cheltenham (The Breeze)<br>Coventry (Touch FM)<br>Coventry a Swydd Warwickshire (Free Radio)<br>Coventry a Swydd Warwickshire* (Free Radio 80s)<br>Dwyrain Canolbarth Lloegr (GEM)<br>Caerloyw a Cheltenham (Heart)<br>Caerloyw a Cheltenham* (Smooth Radio)<br>Henffordd a Chaerwrangon (Free Radio)<br>Swydd Henffordd a Sir Fynwy (Sunshine Radio)<br>Hinckley (Fosse 107)<br>Kidderminster (Signal 107)<br>Caerlŷr (Capital FM)<br>Caerlŷr* (Sabras Radio)<br>Loughborough (Fosse 107) |

| | |
|---|---|
| | Ludlow (Sunshine Radio)<br>Llundain Fwyaf ** (Kiss)<br>Llundain Fwyaf * (Premier Christian Radio)<br>Mansfield 103 (Mansfield)<br>Macclesfield (Silk FM)<br>Nottingham & Derby (Capital FM)<br>Nottingham & Derby* (Gold)<br>Rugby (Rugby FM)<br>Rutland (Rutland Radio)<br>Yr Amwythig a Chroesoswallt (Signal 107)<br>De Ddwyrain Swydd Stafford (Touch FM)<br>Stoke-on-Trent (Signal 1)<br>Stoke-on-Trent* (Signal 2)<br>Stratford-upon-Avon (Touch FM)<br>Telford (Signal 107)<br>Warwick (Touch FM)<br>Gorllewin Canolbarth Lloegr** (Absolute Radio)<br>Gorllewin Canolbarth Lloegr (Heart)<br>Gorllewin Canolbarth Lloegr * (Radio XL)<br>Gorllewin Canolbarth Lloegr (Smooth Radio)<br>Wolverhampton (Signal 107)<br>Wolverhampton a Swydd Amwythig (Free Radio)<br>Wolverhampton a Swydd Amwythig* (Free Radio 80s) |
| **Ynysoedd y Sianel**<br>(Nifer y trwyddedau: 2) | Jersey (Channel 103)<br>Guernsey (Island FM) |
| **Dwyrain Lloegr**<br>(Nifer y trwyddedau: 22) | Caergrawnt ac Ely (Star Radio)<br>Caergrawnt  a Newmarket (Heart)<br>Chelmsford (Radio Essex)<br>Colchester (Heart)<br>Dwyrain Lloegr** (Kiss)<br>Harlow (Heart) |

| | |
|---|---|
| | Ipswich (Town 102)<br>Ipswich & Bury St Edmunds (Heart)<br>Ipswich & Bury St Edmunds* (Smooth Radio)<br>Kings Lynn (KL.FM)<br>Lowestoft (The Beach)<br>North Norfolk (North Norfolk Radio)<br>Norwich (Radio Norwich)<br>Norwich & Great Yarmouth (Heart)<br>Norwich & Great Yarmouth* (Smooth Radio)<br>Peterborough (Connect FM)<br>Peterborough (Heart)<br>Peterborough* (Smooth Radio)<br>Southend (Radio Essex)<br>Southend & Chelmsford (Heart)<br>Southend & Chelmsford* (Smooth Radio)<br>Tendring (Dream 100) |
| **Llundain**<br>(Nifer y trwyddedau: 18) | Brixton (Capital Xtra)<br>Llundain Fwyaf** (Absolute Radio)<br>Llundain Fwyaf (Capital FM)<br>Llundain Fwyaf * (Gold)<br>Llundain Fwyaf (Heart)<br>Llundain Fwyaf (LBC)<br>Llundain Fwyaf (LBC London News)<br>Llundain Fwyaf * (Lyca Radio)<br>Llundain Fwyaf * (Lyca Dil Se)<br>Llundain Fwyaf (Magic)<br>Llundain Fwyaf * (Love Sport)<br>Llundain Fwyaf ** (Radio X)<br>Llundain Fwyaf (Smooth Radio)<br>Llundain Fwyaf * (Sunrise Radio)<br>Havering (Time 107.5) |

| | |
|---|---|
| | Kingston-upon-Thames (Radio Jackie)<br>Gogledd Llundain (London Greek Radio)<br>Gogledd Llundain* (Panjab Radio) |
| **Gogledd Iwerddon**<br>(Nifer y trwyddedau: 10) | Ballymena (Q Radio)<br>Belfast* (Downtown Radio)<br>Belfast (Q Radio)<br>Belfast (U105)<br>Coleraine (Q Radio)<br>Londonderry (Q Radio)<br>Mid Ulster (Q Radio)<br>Newry (Q Radio)<br>Gogledd Iwerddon (Downtown Radio, Cool FM)<br>Omagh & Enniskillen (Q Radio) |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr**<br>(Nifer y trwyddedau: 11) | Darlington (Rathergood Radio)<br>Durham (Rathergood Radio)<br>Northallerton (Minster FM)<br>Gogledd Ddwyrain Lloegr (Capital FM)<br>Gogledd Ddwyrain Lloegr (Heart)<br>Gogledd Ddwyrain Lloegr (Smooth Radio)<br>Sunderland (Sun FM)<br>Teesside (TFM)<br>Teesside* (TFM 2)<br>Tyne & Wear (Metro Radio)<br>Tyne & Wear* (Metro Radio 2) |
| **Gogledd Orllewin Lloegr**<br>(Nifer y trwyddedau: 29) | Bolton & Bury (Tower FM)<br>Blackburn (2BR)<br>Blackpool (Radio Wave)<br>Burnley & Pendle (2BR)<br>Caerliwelydd (CFM)<br>Caer (Dee 106.3)<br>Dwyrain Sir Gaerhirfryn* (Asian Sound) |

| | |
|---|---|
| | Kendal & Windermere (Smooth Radio)<br>Lerpwl (Capital FM)<br>Lerpwl (Radio City 2)<br>Manceinion (Capital FM)<br>Manceinion * (Gold)<br>Manceinion (Hits Radio)<br>Manceinion * (Key Radio)<br>Manceinion ** (Radio X)<br>Manceinion (XS Manchester)<br>Glannau Mersi (Radio City)<br>Glannau Mersi (Radio City Talk)<br>Morecambe Bay (Heart)<br>Gogledd Orllewin Lloegr (Heart)<br>Gogledd Orllewin Lloegr (Smooth Radio)<br>Oldham (Revolution 96.2)<br>Preston & Blackpool (Rock FM)<br>Preston & Blackpool (Rock FM 2)<br>Preston, Leyland & Chorley (2BR)<br>Stockport (Imagine FM)<br>Warrington (Wire FM)<br>Wigan & St. Helens (Wish FM)<br>Dwyrain Cumbria (CFM) |
| **Gogledd yr Alban**<br>(Nifer y trwyddedau: 19) | Aberdeen (Northsound 1)<br>Aberdeen (Original 106)<br>Arbroath & Carnoustie (Radio North Angus)<br>Dundee (Wave FM)<br>Dundee & Perth (Tay FM)<br>Dundee & Perth* (Tay 2)<br>Gairloch (Two Lochs Radio)<br>Inverness (Moray Firth Radio)<br>Inverness (MFR2) |

| | |
|---|---|
| | Inverurie (NECR)<br>Kintyre, Islay and Jura (Argyll FM)<br>Oban (Oban FM)<br>Perth (Wave FM)<br>Pitlochry & Aberfeldy (Heartland FM)<br>Ynysoedd Shetland (SIBC)<br>Skye and Lochalsh (Cuillin FM)<br>Ullapool (Lochbroom FM)<br>Waves Radio (Peterhead)<br>Ynysoedd y Gorllewin (Isles FM) |
| **De'r Alban**<br><br>(Nifer y trwyddedau: 16) | Ayr* (West Sound)<br>Ayr (West FM)<br>Borders (Radio Borders)<br>Canolbarth yr Alban (Capital FM)<br>Canolbarth yr Alban (Heart)<br>Dumfries & Galloway (Westsound FM)<br>Dumbarton (Your Radio)<br>Glasgow (Clyde 1)<br>Glasgow* (Clyde 2)<br>Glasgow (Smooth Radio)<br>Glasgow & West Central Scotland (Nation Radio)<br>Caeredin (Forth 1)<br>Caeredin (Forth 2)<br>Fife (Kingdom FM)<br>Helensburgh (Your Radio)<br>Stirling & Falkirk (Central FM) |
| **De Lloegr**<br><br>(Nifer y trwyddedau: 40) | Alton & Haslemere (The Breeze)<br>Andover (The Breeze)<br>Ashford (KMFM)<br>Aylesbury (Mix 96)<br>Banbury (Banbury Sound) |

| | |
|---|---|
| | Basingstoke (The Breeze) |
| | Brighton (Juice 107.2) |
| | Brighton, Eastbourne & Hastings (Heart) |
| | Brighton, Eastbourne & Hastings* (Smooth Radio) |
| | Burgess Hill & Haywards Heath (More Radio) |
| | Caergaint (KMFM) |
| | Chichester, Littlehampton & Bognor Regis (Spirit FM) |
| | Eastbourne (More Radio) |
| | Folkestone & Dover (KMFM) |
| | Hastings (More Radio) |
| | Hertford (Bob FM) |
| | Kettering & Corby (Connect FM) |
| | Luton & Bedford (Heart) |
| | Luton & Bedford* (Smooth Radio) |
| | Maidstone (KMFM) |
| | Maidstone, Medway a Dwyrain Caint (Heart) |
| | Maidstone, Medway a Dwyrain Caint* (Smooth Radio) |
| | Medway (KMFM) |
| | Milton Keynes (Heart) |
| | Newbury (The Breeze) |
| | Northampton (Heart) |
| | Northampton* (Smooth Radio) |
| | Rhydychen (Jack FM) |
| | Rhydychen (Jack FM 2) |
| | Rhydychen a Banbury (Heart) |
| | Reading (The Breeze) |
| | Reading, Basingstoke & Andover (Heart) |
| | Reigate & Crawley (Heart) |
| | St Albans & Watford (Heart) |
| | Surrey a Gogledd Ddwyrain Hampshire (Eagle Radio) |

| | |
|---|---|
| | Surrey a Gogledd Ddwyrain Hampshire* (Premier Christian Radio)<br>Thanet (KMFM)<br>Tunbridge Wells & Sevenoaks (KMFM)<br>Winchester (The Breeze)<br>Worthing (More Radio) |
| **Cymru**<br>(Nifer y trwyddedau: 16) | Pen-y-bont ar Ogwr (Bridge FM)<br>Caernarfon (Capital FM)<br>Caerdydd a Chasnewydd (Capital FM)<br>Caerdydd a Chasnewydd * (Smooth Radio)<br>Sir Gaerfyrddin (Radio Carmarthenshire)<br>Ceredigion (Radio Ceredigion)<br>Gogledd a Chanolbarth Cymru (Heart)<br>Arfordir Gogledd Cymru (Capital FM)<br>Sir Benfro (Radio Pembrokeshire)<br>De Cymru (Heart)<br>De Cymru (Nation Radio)<br>Abertawe (Swansea Bay Radio)<br>Abertawe (Swansea Sound)<br>Abertawe (The Wave)<br>Wrecsam a Glannau Dyfrdwy (Capital FM)<br>Wrecsam a Glannau Dyfrdwy* (Smooth Radio) |
| **Gorllewin Lloegr**<br>(Nifer y trwyddedau: 37) | Barnstaple (Heart)<br>Caerfaddon (The Breeze)<br>Bournemouth (Heart)<br>Bournemouth* (Smooth Radio)<br>Bournemouth (Fire Radio)<br>Bridgwater a Gorllewin Gwlad yr Haf (The Breeze)<br>Bryste (Sam FM)<br>Bryste (The Breeze)<br>Bryste a Chaerfaddon (Heart) |

| | |
|---|---|
| | Cernyw (Heart)<br>Cernyw (Pirate FM)<br>Exeter (Radio Exe)<br>Exeter & Torbay (Heart)<br>Ynys Wyth (Isle of Wight Radio)<br>Portsmouth (The Breeze)<br>Caersallog (Spire FM)<br>Aber Afon Hafren (Kiss)<br>Shaftesbury (The Breeze)<br>Solent (Sam FM)<br>Solent (Wave 105)<br>Southampton (The Breeze)<br>De Hampshire (Heart, Capital FM)<br>De Hampshire* (Smooth Radio)<br>De Hams (Heart)<br>Swindon (Sam FM)<br>Swindon a Gorllewin Wiltshire (Heart)<br>Swindon a Gorllewin Wiltshire* (Smooth Radio)<br>Taunton & Yeovil (Heart)<br>Torbay (The Breeze)<br>Plymouth (Heart)<br>Plymouth (Radio Plymouth)<br>Plymouth* (Smooth Radio)<br>Weymouth & Dorchester (Wessex FM)<br>Winchester (The Breeze)<br>Warminster (The Breeze)<br>Weston-super-Mare (The Breeze)<br>Yeovil (The Breeze) |
| **Swydd Efrog**<br>(Nifer y trwyddedau: 24) | Barnsley (Dearne FM)<br>Bassetlaw (Trax FM)<br>Bradford (Sunrise FM) |

| | |
|---|---|
| | Bradford & Huddersfield (Pulse 1)<br>Bradford & Huddersfield * (Pulse 2)<br>Bridlington (Yorkshire Coast Radio)<br>Chesterfield (Peak FM)<br>Doncaster (Trax FM)<br>Grimsby (Compass FM)<br>Harrogate (Stray FM)<br>Glannau Humber (Viking FM)<br>Glannau Humber (Viking 2)<br>Kingston-upon-Hull (KCFM)<br>Leeds (Radio Aire)<br>Leeds* (Radio Aire 2)<br>Lincoln (Lincs FM)<br>Rotherham (Rother FM)<br>De Swydd Efrog (Hallam FM)<br>De Swydd Efrog * (Hallam 2)<br>De a Gorllewin Swydd Efrog (Heart)<br>Wakefield (Ridings FM)<br>Caerefrog (Minster FM)<br>Swydd Efrog (Capital FM)<br>Scarborough (Yorkshire Coast Radio) |

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ddydd Iau Dydd Gwener, 3 Awst 2018.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr ar wefan Ofcom. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i localness@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl Dydd Gwener, 3 Awst 2018.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Jon Heasman
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A3.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A3.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A3.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Jon Heasman ar 020 783 4509, neu dros yr e-bost i jon.heasman@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use

## Y camau nesaf

A3.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod Hydref 2018.

A3.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/email-updates

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

A3.18 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.19 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Lleolrwydd ar radio masnachol

At (cyswllt yn Ofcom): Jon Heasman (Uwch Swyddog Gweithredol Trwyddedu Darlledu)

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy'r e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os yw'n gopi papur)

# A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1.** Ydych chi'n cytuno y byddai modd diwallu dyletswydd Ofcom i sicrhau 'lleolrwydd' ar orsafoedd radio masnachol lleol petai gorsafoedd yn gallu lleihau faint o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol maen nhw'n eu darparu? Os nad ydych chi, rhowch y rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.

**Cwestiwn 2.** Ydych chi'n cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw ddiwygiadau rydych chi'n meddwl a ddylai gael eu gwneud yn lle (os o gwbl) ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.

**Cwestiwn 3.** Ydych chi'n cytuno â'n hardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw gynigion eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried (os o gwbl) ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.

**Cwestiwn 4.** Ydych chi'n cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â deunyddiau lleol? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw ddiwygiadau rydych chi'n meddwl a ddylai gael eu gwneud yn lle ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.